Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2016-2017
















llyw.cymru

# Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol



Shan Morgan

Mae'n bleser gen i gyflwyno fy nghyfrifon cyfunol cyntaf ar ran Llywodraeth Cymru. Ysgwyddais fy swydd fel Ysgrifennydd Parhaol tua diwedd 2016/17, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'm rhagflaenydd, Syr Derek Jones am ei reolaeth ariannol gadarn yn ystod y cyfnod adrodd. Hoffwn ddiolch yn fwy cyffredinol i Derek am y sylfeini cadarn sydd gennyf i adeiladu arnynt fel Ysgrifennydd Parhaol.

Gwelodd y flwyddyn ariannol ddiwethaf gychwyn ar gyfnod o newid sylweddol. Ffurfiwyd Cabinet newydd ym mis Mai 2016, ac yn fuan wedyn cyhoeddwyd 'Symud Cymru Ymlaen', rhaglen lywodraethu tymor y Cynulliad hwn. Hefyd cyhoeddodd y Prif Weinidog 'Diogelu Dyfodol Cymru', papur gwyn a ddatblygwyd ar y cyd gyda Phlaid Cymru, gan nodi'r materion sy'n hanfodol bwysig i Gymru wrth i'r DU baratoi i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r gwaith o weithredu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau. Roedd newidiadau hanesyddol i'r tirlun datganoledig yng Nghymru hefyd, gan gynnwys Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Cymru 2017 ym mis Ionawr, a ddaeth â phwerau newydd, pwysig. Cychwynnodd rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer y pumed Cynulliad ym mis Mai 2016, gan gyflwyno Biliau amrywiol yn ymwneud â diddymu'r hawl i brynu, trethi newydd ac iechyd y cyhoedd.

Fe welwch fwy o fanylion am y meysydd hyn yn yr adroddiad blynyddol, ynghyd â sylw penodol i'r amserlen ar gyfer trethi datganoledig.

Treuliais fy misoedd cyntaf yn dod i adnabod staff y sefydliad ac yn gwrando arnynt. Mae'r dalent, y proffesiynoldeb a'r ymrwymiad a welais - ynghyd â balchder gwirioneddol cydweithwyr yn eu gwaith o wasanaethu cymunedau a rhanddeiliaid - wedi creu tipyn o argraff arnaf. Bydd y newidiadau sydd o'n blaen yn fwy ac yn digwydd yn gynt nag erioed, a'm prif flaenoriaeth yw sicrhau bod gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru'n barod i gefnogi'r Gweinidogion a'u helpu i gyflawni eu hamcanion. Rwyf wedi cyflwyno menter i ddiogelu'n sefydliad at y dyfodol ac ateb yr heriau sydd o'n blaen drwy adeiladu gweithlu cryf, medrus a chynaliadwy, sy'n medru ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau cyfnewidiol.

Rwy'n ddiolchgar iawn i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt am eu croeso cynnes. Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i gyfrannu at ddyfodol Cymru drwy sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosib ac yn darparu gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

# Cynnwys

**Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol** 2

**Golwg ar Lywodraeth Cymru** 4

**Adroddiad Atebolrwydd**

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 25

Datganiad Llywodraethiant 26

Adroddiad staff a thaliadau cydnabyddiaeth 40

Datganiad colledion 52

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau 53

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 56

**Adroddiad Ariannol**

Datganiadau Ariannol 58

Nodiadau ar y Cyfrifon 62

Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu 85

Atodiad B – Geirfa 93

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

Caiff cyfrifon Llywodraeth Cymru eu paratoi yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017, ynghyd â Thystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â hwy.

Gosodwyd gerbron y Cynulliad ar 31 Awst 2017 yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru

# Golwg ar Lywodraeth Cymru

## Trosolwg

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig ein gwlad. Gyda chyllideb flynyddol o tua £14bn net o £1.8bn o incwm, mae'r Llywodraeth yn gweithio ar draws prif feysydd bywyd cyhoeddus megis iechyd, addysg, yr economi, amaeth a'r amgylchedd.

Cafodd ei chreu yn ffurfiol yn 2007 dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, a osododd raniad rhwng swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth). Newidiodd Deddf Cymru 2014 yr enw cyfreithiol i Lywodraeth Cymru. Mae setliad datganoli Cymru wedi esblygu'n ddramatig ers sefydlu'r Cynulliad yn 1999, ac fe fydd yn parhau i ehangu drwy bwerau newydd a fydd yn dod i rym y flwyddyn nesaf.

Dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau ac yn gyfrifol am gyflawni yn y meysydd sydd wedi'u datganoli, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddfau Cymru 2014 a 2017. Mae hynny'n golygu datblygu polisïau a'u rhoi ar waith; sefydlu a chyfarwyddo'r gwaith o gyflawni a llywodraethu; cynnig Deddfau Cymru (Biliau'r Cynulliad); a gwneud is-ddeddfwriaeth, fel rheoliadau a chanllawiau statudol. Mae hefyd yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

## Symud Cymru Ymlaen

Ar ôl ffurfio'r Llywodraeth newydd, cyhoeddwyd y ddogfen Symud Cymru Ymlaen ym mis Medi 2016. Mae'n amlinellu prif flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer sicrhau gwelliannau i'r economi a gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r nod o wneud gwahaniaeth i bawb, ar bob cam o'u bywydau. Mae'n canolbwyntio ar alluogi pobl i fyw bywydau iach a chyflawn, gan fanteisio ar bob cyfle, a'u cefnogi pan fo angen cymorth.

Er mwyn cyflawni'r gwaith, mae strategaeth genedlaethol yn cael ei datblygu i nodi'n fanylach pa gamau cyd-ddibynnol y byddwn yn eu cymryd i ddatblygu atebion arloesol i'r heriau sydd o'n blaen ac i wneud y mwyaf o'r cyllid cyhoeddus. Mae'r strategaeth hon wedi'i pharatoi yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a fydd yn llywio'r ffordd y bydd yn cael ei rhoi ar waith.

# Y Cabinet



O fis Mai 2016, mae'r Cabinet a'r Gweinidogion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones | Prif Weinidog Cymru |
| Jane Hutt | Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip |
| Mark Drakeford | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Vaughan Gething | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Lesley Griffiths | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| Carl Sargeant | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant |
| Ken Skates | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith |
| Kirsty Williams | Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg |
| Alun Davies | Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes |
| Rebecca Evans | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Julie James | Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth |
| Mick Antoniw | Cwnsler Cyffredinol Cymru |


# Gwariant Llywodraeth Cymru

Gosodir lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru drwy Adolygiadau o Wariant Llywodraeth y DU. Mae hon yn broses dan arweiniad y Trysorlys i ddyrannu adnoddau ar draws pob un o Adrannau Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Pennir addasiadau i lefel y cyllid ar gyfer Cymru - negyddol neu gadarnhaol - drwy Fformiwla Barnett.

## Gwariant 2016-17

Mae'r gwariant tua £14.0bn sy'n net o £1.8bn o incwm. Daw'r mwyafswm o'r incwm hwn o gyllid Yswiriant Gwladol ar gyfer Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Mae £0.4bn arall yn gyllid o'r Undeb Ewropeaidd.


Dangosir gwariant net a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru isod:



# Ffiniau Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru 2016-17

Gan ystyried ystod cyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru, mae'r Cyfrifon ar gyfer 2016-17 yn cynnwys craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) a Grŵp Llywodraeth Cymru (cyfuno gyda Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, Cyllid Cymru, Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP, WG Holdco Ltd a Dewis Gyrfa).

Er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu Ymddiriedolaethau'r GIG, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff Comisiynwyr, nid yw'r rheiny yn cael eu cyfuno yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru.



# Mantolen Llywodraeth Cymru

Wedi'i disgrifio yn y Cyfrifon fel 'Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol' mae Mantolen Llywodraeth Cymru yn cynnwys tair prif eitem:

- Eiddo, offer a chyfarpar – yn bennaf prisiad presennol yr ased Rhwydwaith Ffyrdd (£16bn) a phortffolio eiddo Byrddau Iechyd Lleol (£3bn)
- Asedau ariannol - yn bennaf prisiad presennol llyfr Benthyciadau Myfyrwyr Cymru (£3bn).

## Rhwydwaith Ffyrdd Llywodraeth Cymru

Fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol gyfrifol am gynnal a chadw, gweithredu a rheoli'r ased hwn sydd werth £16bn. Mae dros 75 milltir o draffordd a dros 1000 milltir o gefnffyrdd.

Ymysg prif elfennau'r rhwydwaith mae pontydd, twnelau, waliau cynnal a gantrïau. Mae dros 3,700 o strwythurau o'r fath ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd ar draws Cymru, amcangyfrifir gwerth tua £4.6bn. Mae pum twnnel ffordd ar y rhwydwaith ar draws Cymru.



## Portffolio eiddo Byrddau Iechyd Lleol

Mae seilwaith y GIG yn cynnwys tir ac adeiladau, yn ogystal ag asedau sylweddol eraill fel cerbydau, offer meddygol, ac offer a seilwaith Technoleg Rheoli Gwybodaeth. Mae gwerth cyfunol asedau'r ystad yn £3bn ac mae hynny'n cwmpasu'r holl leoliadau gofal iechyd gan gynnwys gofal acíwt, gofal sylfaenol a gofal cymunedol.

Mae gan y GIG 26 prif safle ysbyty ar draws Cymru sy'n cael eu gweithredu gan fyrddau iechyd lleol, er bod tua 70 safle ysbyty arall, llai. Yn bennaf, mae ystad y Byrddau Iechyd Lleol yn cynnwys gwerth dros £2.1bn o adeiladau, £0.4bn o dir a £0.2bn o asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.



## Llyfr Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch yn y DU. O ganlyniad, mae'r costau yn cael eu harwain gan y galw, ac yn medru amrywio'n sylweddol. At ddibenion cyllidebu, mae cost darparu benthyciadau myfyrwyr yn cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio rhagolygon. Cynhelir dadansoddiad o sensitifrwydd er mwyn mesur effaith newidiadau yn y prif ragdybiaethau (er enghraifft nifer y myfyrwyr).

Roedd amrywiol fenthyciadau cymorth i fyfyrwyr ar gael i fyfyrwyr cymwys o Gymru yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17. Roedd modd i fyfyrwyr llawn amser gymryd benthyciad ar gyfer ffioedd o hyd at £3,900.

Hefyd roedd benthyciad ar gyfer costau byw ar gael i fyfyrwyr, gyda'r swm yn dibynnu ar incwm aelwyd y myfyriwr (hynny yw, prawf modd). Roedd uchafswm y benthyciadau ar gyfer costau byw hefyd yn dibynnu ar ble yn union roedd y myfyriwr yn byw wrth astudio.

Yn ogystal â benthyciadau ad-daladwy, derbyniodd myfyrwyr cymwys amrywiol grantiau eraill, nad oes angen eu had-dalu. Yn eu plith roedd grant ffioedd dysgu a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr llawnamser, a grant cwrs ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Roedd grantiau wedi'u targedu ar gyfer myfyrwyr â phlentyn neu oedolyn dibynnol, grantiau teithio a Lwfans Myfyrwyr Anabl hefyd ar gael.



# Gweinyddiaeth ariannol

## Ymysg uchafbwyntiau'r weinyddiaeth ariannol yn ystod y cyfnod adrodd mae'r canlynol:

**102,810**
o anfonebau wedi'u talu, gwerth cyfanswm o £783m gyda 96% yn cael eu talu o fewn 10 diwrnod.

395 o gynlluniau grant wedi'u gweinyddu, cyfanswm o
**£13.8bn**

Gosodwyd yn 6ed allan o 22 corff Llywodraethu ar gyfer Rheolaeth Ariannol.

42% o wariant caffael blynyddol Llywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17 gyda chwmnïau o Gymru.



# Pontio Ewropeaidd



Yn dilyn y Refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ym mis Mehefin 2016, sefydlwyd tîm penodol ar gyfer y Trefniadau Pontio Ewropeaidd er mwyn arwain y gwaith o ddatblygu polisi strategol, a chydlynu gwaith Llywodraeth Cymru ar ymadael â'r UE. Mae'r tîm wedi gweithio'n agos gyda thîm presennol Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ac ar draws adrannau polisi perthnasol.

Sefydlwyd Grŵp Cynghori ar Ewrop er mwyn cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch goblygiadau ymadawiad y DU â'r UE, a sut y gellid goresgyn yr heriau a manteisio ar y cyfleoedd i sicrhau dyfodol ffyniannus a chynnal perthynas gadarnhaol rhwng Cymru ac Ewrop. Mae'r grŵp, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, yn manteisio ar gyfoeth o brofiad, ac yn cynnwys arweinwyr o fyd busnes, gwleidyddion, undebau llafur ac eraill ag arbenigedd Ewropeaidd.

Sefydlwyd Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd er mwyn llunio ac ysgogi gwaith Llywodraeth Cymru, rhoi cyfeiriad strategol a sicrhau'r canlyniad gorau i bobl Cymru wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd .

Sefydlwyd fforwm newydd i gysylltu rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig dan drefn bresennol y Cyd-bwyllgor Gweinidogion, er mwyn trafod gofynion ar gyfer y berthynas gyda'r UE yn y dyfodol wrth baratoi ar gyfer y negodiadau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod yn rhagweithiol wrth ymateb i'r heriau, ac ym mis Ionawr cyhoeddodd Bapur Gwyn, 'Diogelu Dyfodol Cymru: Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop' ar y cyd â Phlaid Cymru. Mae'r papur hwn yn nodi'n glir beth yw'n buddiannau a'n blaenoriaethau strategol, ac yn cynnig safbwynt ymarferol i'r DU wrth ddechrau ar y negodiadau ar gyfer ymadael â'r UE.

Ar 15 Mehefin 2017, cyhoeddwyd dogfen bolisi arall, 'Brexit a Datganoli', yn cynnig cynllun ar gyfer newid cyfansoddiadol sylweddol yn y DU er mwyn wynebu'r heriau a fydd yn codi yn sgil Brexit i'r gwledydd datganoledig a dyfodol llywodraethiant y DU yn gyfan.

Wrth i'r negodiadau ddechrau gyda'r UE, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i chwarae rhan weithredol gan geisio sicrhau'r canlyniad gorau posib i bobl Cymru.

# Y tirlun datganoledig yng Nghymru

## Deddf Cymru 2017

Ar 31 Ionawr 2017, fe gafodd Deddf Cymru Gydsyniad Brenhinol. Roedd yn ddiwedd ar 18 mis o negodi rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ar gynnwys y Bil, a oedd ynddo'i hun yn dilyn proses Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU.

Mae Deddf Cymru 2017 yn nodi newid sylweddol i'r tirlun datganoledig yng Nghymru, a'r newid mwyaf amlwg yw symud tuag at y model cadw pwerau o ddatganoli. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cynulliad yn gallu deddfu ond mewn perthynas â'r 21 o bynciau sy'n cael eu rhestru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Dan y model cadw pwerau, bydd modd i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas ag unrhyw bwnc nad yw wedi'i gadw yn ôl yn benodol gan Senedd y DU. Daw hyn â setliad datganoli Cymru i fod yn unol â systemau datganoli'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ogystal â diwygio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, mae Deddf Cymru hefyd yn ehangu pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru mewn nifer o feysydd polisi. Yn eu plith mae pwerau newydd dros etholiadau, dŵr, trafnidiaeth ac ynni, yn ogystal â chreu swyddfa newydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae pwerau gweithredol pellach yn debyg o ddilyn yn 2018 drwy gyfres o orchmynion trosglwyddo swyddogaethau a fydd yn cyd-fynd â'r prif ddarpariaethau yn Neddf Cymru fydd yn dod i rym.

## Bil y Cynulliad yn cael Cydsyniad Brenhinol yn 2016-17

### Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 - cael Cydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2016

Mae'r Ddeddf hon yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Swyddogaethau cyffredinol yr Awdurdod (ar ran y Goron) yw casglu a rheoli trethi datganoledig. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer aelodaeth a llywodraethiant yr Awdurdod. Hefyd mae'r Ddeddf yn sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig, gan gynnwys darpariaethau yn ymwneud â ffurflenni trethi; ymholiadau ac asesiadau gan yr Awdurdod; pwerau'r Awdurdod i ymchwilio a chosbi; adolygiadau ac apeliadau ynghylch penderfyniadau'r Awdurdod; a rhoi pwerau gorfodi troseddol.

# Rhaglen Ddeddfwriaethol 2016/17

Yn dilyn etholiad Mai 2016, cyflwynwyd chwe Bil i'r Cynulliad gan Lywodraeth Cymru.

## Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Mae'r Ddeddf hon yn sefydlu treth ddatganoledig, y dreth trafodiadau tir, i ddisodli treth dir y dreth stamp yng Nghymru, ac fe gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2017. Mae'r Ddeddf yn sefydlu prif egwyddorion y dreth, gan gynnwys y mathau o drafodiadau fydd yn agored i'r dreth, y drefn fydd yn cael ei defnyddio i osod ac amrywio cyfraddau a bandiau treth, y rhyddhad all fod yn berthnasol i drafodiadau, a'r ffordd o gyfrifo swm y dreth sy'n cael ei godi ar drafodiad. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Awdurdod Cyllid Cymru fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig drwy gyflwyno rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi.

## Bil Diddymu Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Cyflwynwyd Bil Diddymu Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) i'r Cynulliad ym mis Mawrth 2017. Bydd yn rhoi diwedd ar yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yng Nghymru. Ar hyn o bryd rhai tenantiaid cymdeithasol yn unig sy'n medru arfer yr hawliau hyn, sy'n caniatáu i denantiaid o'r fath brynu eu cartrefi oddi wrth eu landlordiaid am bris gostyngol. Bydd diddymu'r hawl i brynu yn diogelu'r stoc o dai cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac yn annog adeiladu stoc newydd o dai cymdeithasol heb y perygl o'u gweld yn cael eu gwerthu o fewn cyfnod byr.



## Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Cyflwynwyd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ym mis Rhagfyr 2016. Ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed, mae'r Bil yn ceisio sicrhau hawliau cyfartal a gwell pontio rhwng lleoliadau; sefydlu un cynllun statudol - cynllun datblygu unigol; creu swyddogaethau statudol newydd o fewn iechyd ac addysg i sicrhau cydweithio ac integreiddio a bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni; ac yn sail i hynny mae cod cryfach, gyda gofynion gorfodol a chanllawiau statudol i gefnogi'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

## Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

Pasiwyd y Bil hwn gan y Cynulliad ar 27 Mehefin 2017, ac mae'n sefydlu treth ddatganoledig, treth gwarediadau tirlenwi, i ddisodli'r dreth dirlenwi yng Nghymru. Mae'r Bil yn nodi'r amgylchiadau lle bydd gwaredu deunydd yn ddarostyngedig i'r dreth gwarediadau tirlenwi ac yn gosod nifer o eithriadau a rhyddhadau, cosbau a manylion eraill. Bydd y dreth gwarediadau tirlenwi yn berthnasol i warediadau anawdurdodedig yn ogystal â gwarediadau a wnaed mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig, sy'n wahanol i'r dreth dirlenwi bresennol yn y DU.

## Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

Cyflwynwyd Bil yr Undebau Llafur (Cymru) i'r Cynulliad ym mis Ionawr 2017 ac fe gafodd ei basio gan y Cynulliad ar 18 Gorffennaf 2017. Mae'r Bil yn gwyrdroi effeithiau darpariaethau Deddf yr Undebau Llafur 2016 sy'n niweidio'r dull gweithredu o bartneriaeth gymdeithasol wrth reoli gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n datgymhwyso adrannau o Ddeddf 2016, fel ag y maent yn berthnasol i awdurdodau datganoledig Cymru, sy'n gosod trothwy o 40% mewn pleidlais ar weithredu diwydiannol, gofynion ar gyhoeddi a chyfyngiadau ar amser rhydd i wneud gwaith undeb, ac amodau ar dalu ffioedd tanysgrifio i undeb drwy dynnu'r taliad o gyflog y gweithwyr.

## Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Pasiwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gan y Cynulliad ar 16 Mai 2017, ac fe gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf. Bydd yn gwella ac yn amddiffyn iechyd a llesiant y genedl. Yn benodol, mae'n amddiffyn plant rhag mwg ail-law a rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff; yn galluogi gwell cynllunio o'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus; ac yn darparu ar gyfer rheoleiddio diogel ar weithdrefnau arbennig fel tatŵio, tyllu, aciwbigo ac electrolysis. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith eu penderfyniadau ar iechyd meddyliol a chorfforol pobl; ac yn gwneud cynllunio gwasanaethau fferyllol yn fwy ymatebol i anghenion cymunedau.

## Trethi datganoledig yng Nghymru

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd cyfrifoldeb dros rywfaint o'r refeniw treth sy'n cael ei godi yng Nghymru yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, sy'n golygu y bydd modd iddynt yn y dyfodol amrywio trethi, gan ddylanwadu ar lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Ddwy flynedd yn ôl, ysgwyddodd Cymru gyfrifoldeb llawn dros arian a godir drwy ardrethi annomestig.

Hyd at hynny, bu elfen o gronni refeniw ardrethi annomestig gyda Lloegr, ond o 2015 ymlaen yr arian a godir gan ardrethi annomestig yng Nghymru yw'r arian sy'n cael ei wario yng Nghymru.

Gan gynnwys ardrethi annomestig a'r dreth gyngor, erbyn mis Ebrill 2019 bydd tua £5bn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n cael ei godi o drethi sydd wedi'u gosod yng Nghymru.

## Deddf Cymru 2014

Darparwyd pwerau cyllidol newydd gan Ddeddf Cymru 2014. Ym mis Ebrill 2018, bydd dwy dreth Gymreig cwbl ddatganoledig yn cael eu cyflwyno - treth trafodiadau tir (yn disodli treth dir y dreth stamp) a'r dreth gwarediadau tirlenwi (yn disodli'r dreth dirlenwi). Dyma'r trethi cyntaf i'w gwneud yng Nghymru ers bron i 800 o flynyddoedd. Pasiwyd deddfwriaeth sylfaenol gan y Cynulliad Cenedlaethol i weithredu'r trethi hyn.


Bydd trethi Cymru'n cael eu rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru, yr adran anweinidogol gyntaf i'w chreu gan Lywodraeth Cymru. Roedd deddfwriaeth i sefydlu'r Awdurdod yn rhan o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, ac fe fydd y sefydliad yn ei le erbyn hydref 2017.

Cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymreig, ym mis Ebrill 2019, fydd o bosib yn cael yr effaith fwyaf ar ddinasyddion Cymru. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru, felly er mai'r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn gyfrifol am osod cyfraddau blynyddol i'w talu gan drethdalwyr Cymru ar incwm nad yw'n deillio o gynilon na difidend, Llywodraeth y DU fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am nifer o agweddau eraill - gan gynnwys gosod lwfans personol a throthwy incwm ar gyfer y cyfraddau treth, a threthu incwm o gynilon neu ddifidend. Bydd y dreth yn parhau i gael ei chasglu gan CThEM. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i beidio codi cyfraddau treth incwm yn ystod tymor y Cynulliad presennol.

Mae Deddf Cymru 2014 hefyd yn darparu ar gyfer creu trethi Cymreig newydd - naill ai datganoli trethi eraill o'r DU i Gymru neu drethi wedi'u creu o'r newydd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'n rhaid i unrhyw dreth newydd fodloni meini prawf asesiad heriol gan Drysorlys ei Mawrhydi, ac fe fyddai'n rhaid cael cytundeb y Cynulliad a Dau Dŷ'r Senedd.

Wrth ochr pwerau treth, mae Deddf Cymru 2014 hefyd wedi darparu pwerau benthyca newydd i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn trafodaethau diweddar gyda Llywodraeth y DU, mae'r rhain ar hyn o bryd yn £1bn o fenthyca cyfalaf i fuddsoddi mewn seilwaith a £500m o fenthyca refeniw i gwmpasu amrywiadau i'r llif o arian (gan y bydd rhan o wariant Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar refeniw treth).

## Amserlen datganoli treth




## Fframwaith Cyllidol

Pan fydd mesurau datganoli trethi wedi'u rhoi ar waith, bydd tua 80% o wariant Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei bennu gan y grant bloc. Felly roedd y trafodaethau ynghylch unrhyw ostyngiad i'r grant bloc yn gyfnewid am gadw refeniw treth yng Nghymru yn eithriadol o bwysig. Mae'r fethodoleg ar gyfer gosod yn erbyn y grant yn broses gymhleth - yn gofyn am gyfrifo sut mae disgwyl i'r amrywiol refeniw treth newid yn y dyfodol - ond cytunwyd ar ddull gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016 fel rhan o Fframwaith Cyllidol.

Mae elfen allweddol o'r fframwaith yn gofyn am ddiwygio fformiwla Barnett, fel y mae'n berthnasol i Gymru.

Bydd y Fframwaith Cyllidol yn gweithredu'r system sy'n cael ei hargymell gan Gomisiwn Holtham - cyllid gwaelodol. Bydd hyn yn golygu bod unrhyw gynnydd mewn gwariant mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru yn cael ei luosi gan ffactor o 115%, er mwyn adlewyrchu nodweddion y boblogaeth. Yn y lle cyntaf, tra bo cyllid cymharol Cymru'n uwch na'r lefel hwnnw dros dro, bydd y lluosydd yn 105%. Bydd y cytundeb hwn yn arwain at adnoddau ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus Cymru ac yn rhoi sylw i'r mater o gyllido teg yn y tymor hir, gan alluogi Llywodraeth Cymru i gytuno i ddatganoli treth incwm yn rhannol.

Roedd y Fframwaith Cyllidol hefyd yn cynnwys cytundeb ar derfyn uchaf benthyca cyfalaf i Gymru (yn codi o £500m dan Ddeddf Cymru 2014 i £1bn); Cronfa wrth gefn i Gymru (er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i storio adnoddau heb eu gwario o dderbyniadau treth a'r grant bloc - 'cyfrif cynilo' i bob pwrpas); a rôl i gyrff annibynnol o'r llywodraeth i gyfrannu cyngor arbenigol ynghylch unrhyw anghytuno yn y dyfodol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ar weithredu'r Fframwaith Cyllidol.

# Cyfansoddiad cyllid Llywodraeth Cymru yn dilyn datganoli trethi


## Polisi Trethi Cymru

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fframwaith polisi trethi wedi'i seilio ar bum egwyddor. Dylai trethi Cymru fod fel a ganlyn:

- codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg a phosibl
- cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi twf a swyddi
- bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml
- cael eu datblygu trwy gydweithredu ac ymwneud
- cyfrannu at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn arwain trafodaethau gyda dinasyddion, busnesau a rhanddeiliaid eraill dros y misoedd nesaf wrth i'r polisi trethi gael ei fireinio ymhellach, gan gynnwys mewnbwn gan raglen o waith i gasglu tystiolaeth a fydd yn bwydo i mewn i'r meddwl tymor hir. Y nod cyffredinol yw sicrhau trefn glir, sefydlog, flaengar a chadarn ar gyfer trethi yng Nghymru.

## £16bn y flwyddyn




*Treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi


# Y Gwasanaeth Sifil

Y gwasanaeth sifil yw'r weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cefnogi Prif Weinidog, Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Mae cryfderau craidd y gwasanaeth sifil yn darparu sylfaen gadarn i'r sefydliad - amhleidioldeb gwleidyddol; gweinyddiaeth effeithlon; llywodraethu da; a rheolaeth gadarn o gyllid cyhoeddus.

Mae'r staff yn gweithio o fewn un o bedwar Grŵp - dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol, dau Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol, a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (hefyd Prif Weithredwr GIG Cymru).

## Staff Llywodraeth Cymru

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gan wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru 5,088 o staff cyfwerth ag amser llawn, gostyngiad o 80 aelod staff yn ystod y flwyddyn.




## Swyddfeydd Llywodraeth Cymru

Ym mis Ebrill 2017 roedd

**30 eiddo**




gyda **23** o swyddfeydd a **7** safle heb fod yn swyddfa o gymharu â 2010 pan oedd **75** eiddo gyda **65** o swyddfeydd a **10** safle heb fod yn swyddfa.

Mae Strategaeth Leoli 2015-20, a gyhoeddwyd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn parhau i osod yr ystad ar draws **5** ardal ddaearyddol yng Nghymru, gyda swyddfa fach ond pwysig yn Llundain.

Mae'r strategaeth yn darparu'r potensial i leihau i gyfanswm o **24** eiddo gydag arbediad gros o **£3.46m** ac arbediad costau rhedeg blynyddol o **£2.52m**.

Amcangyfrifir bod y derbyniadau cyfalaf o'r gwarediadau rhydd-ddaliadau rhwng **£6.25m** a **£7.8m**.



# Adroddiad cynaliadwyedd

## Rheolaeth Amgylcheddol ar yr ystad weinyddol

Nod Llywodraeth Cymru yw parhau i wella perfformiad amgylcheddol yr ystad weinyddol, gan gydweithio'n agos gydag arbenigwyr technegol i wella rheolaeth o ynni, dŵr a rheoli gwastraff, gyda'r bwriad o fodloni targedau'r Llywodraeth.

Yn 2016-17, gwelwyd gostyngiad o 9% yn yr allyriadau carbon o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bellach mae Llywodraeth Cymru wedi pasio'i tharged allyriadau drwy sicrhau 50% o ostyngiad ar linell sylfaen 2010/11. Gwelwyd gostyngiad pellach mewn defnydd o ddŵr, ac mae'r gyfradd ailgylchu wedi pasio'r targed o 80%.

Mae cyfanswm y gwastraff a gofnodwyd wedi cynyddu, er y credir bod hyn o ganlyniad i well dulliau casglu a monitro data.

Yn ystod 2016-17, rhoddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Amgylcheddol ar waith, yn dilyn y Strategaeth Garbon 5 mlynedd a roddwyd ar waith yn 2015-16. Mae'r strategaeth newydd hon yn darparu fframwaith i sicrhau bod yr ystad weinyddol yn gweithredu mewn ffordd gynyddol gynaliadwy ac effeithlon.

Gellir gweld rhagor o fanylion am allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynhyrchu gwastraff a defnydd dŵr ar yr ystad weinyddol isod:

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol ('000 $tCO_2e$) | Cyfanswm Allyriadau Gros | 10.4 | 10.4 | 9.2 | 8.4 | 6.9 | 6.3 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 1 (Nwy) | 1.9 | 1.9 | 1.5 | 1.3 | 1.1 | 1.1 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 2 (Trydan) | 8.8 | 8.5 | 7.7 | 7.1 | 5.8 | 5.2 |
| Defnydd Ynni Cysylltiedig (GWh) | Trydan | 16.0 | 15.9 | 14.2 | 13.4 | 11.8 | 11.6 |
| | Nwy | 8.6 | 10.2 | 8.4 | 7.1 | 5.8 | 5.8 |
| Dangosyddion Ariannol (£miliwn) | Gwariant ar Ynni | 2.0 | 2.3 | 2.3 | 2.1 | 2.1 | 2.1 |
| | Lwfansau Ymrwymiad Lleihau Carbon (2012 ymlaen) | 0.18 | 0.10 | 0.11 | 0.16 | 0.10 | 0.10 |
| | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | - | - | 4.3 | 4.5 | 4.7 | 4.8 |

| **Gwastraff** | | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tunelli) | Cyfanswm Gwastraff (tunelli) | | 665 | 609 | 583 | 500 | 498 | 563 |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Tirlenwi | 268 | 202 | 184 | 127 | 112 | 104 |
| | | Ailddefnyddio/ Ailgylchu | 448 | 365 | 361 | 314 | 322 | 396 |
| | | Compostio (bwyd) | 76 | 42 | 38 | 59 | 64 | 63 |

| **Dŵr** | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (cu.m/person/blwyddyn) | 10 | 8 | 10 | 8 | 8 | 7 |

# Perfformiad gweinyddol

Mae'r sefydliad yn anelu at fod yn dryloyw, hygyrch ac effeithlon yn ei ddull o weinyddu. Ymysg uchafbwyntiau'r weinyddiaeth ariannol yn ystod y cyfnod adrodd mae'r canlynol:

- **12,142** eitem o ohebiaeth Weinidogol wedi dod i law gyda 10,851 (89.3%) yn cael ymateb o fewn y terfyn o 17 diwrnod gwaith.
- **817** o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi dod i law, gyda 673 (86%) yn cael ymateb o fewn y terfyn amser statudol.
- **83,919** o alwadau ffôn wedi'u derbyn gan y Ganolfan Cyswllt Cyntaf.

Mae'r sefydliad yn cynnal gweithdrefn gwyno i gwsmeriaid, sy'n cael ei ddarparu yn unol â model gweithredu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

# Datblygu'r sefydliad

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym ym mis Ebrill 2016. Yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn cychwyn y ddyletswydd llesiant a'r dyletswyddau cysylltiedig ar Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'r Ddeddf, cymerwyd camau gan gynnwys:

- Datblygu dull gweithredu arloesol ar gyfer adroddiad blynyddol 'Llesiant Cymru', y disgwylir ei gyhoeddi ym mis Medi 2017, gan gynnwys sefydlu cysylltiadau gyda Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.
- Datblygu'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol statudol cyntaf i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, a pharhau i weithio er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi cyrff cyhoeddus i edrych tua'r tymor hir yn eu penderfyniadau.
- Llunio cyfres gychwynnol o amcanion llesiant y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, er mwyn cyfannu gymaint â phosib i'r saith nod llesiant, a'r datganiad llesiant cysylltiedig.
- Datblygu'r amcanion hyn ymhellach fel rhan o'r ymrwymiad i ddatblygu strategaethau Ffyniannus a Diogel, Iach ac Egnïol, Uchelgais a Dysgu, ac Unedig a Chysylltiedig.
- Adolygu a diwygio'r amcanion llesiant fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth genedlaethol.
- Cefnogi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gwaith o baratoi eu hasesiadau llesiant lleol.

- Gwella'r ffordd mae timau'n cynllunio, rheoli, monitro ac adrodd ar eu gwaith er mwyn darparu gwell cysondeb ac integreiddio, gwell dealltwriaeth o'r berthynas gyda'r nodau llesiant, a sut gall y pum ffordd o weithio helpu timau i gynllunio eu gwaith.
- Dechrau datblygu dull gweithredu mwy strategol ac integredig i werthuso effaith ein gwaith gan ddefnyddio'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio fel fframwaith defnyddiol.

## Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd rhoddwyd pwyslais ar ymgorffori'r safonau mewn arferion gwaith ar draws y sefydliad er mwyn helpu i sicrhau bod yr iaith yn cael ei gweld a'i chlywed yn amlach ar draws swyddfeydd Llywodraeth Cymru.

Bydd y sylw yn y tymor hir ar gynllunio'r gweithlu mewn ffordd well a mwy strategol, fel sy'n ofynnol gan y safonau. Mae adroddiad blynyddol 2016-17 Llywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg bellach wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

## Rhaglen Paratoi at y Dyfodol

Cynhaliwyd rhaglen gwella busnes o fis Chwefror 2015 hyd at fis Mawrth 2017. Y nod oedd datblygu'r sefydliad i fedru bodloni anghenion y Gweinidogion yn well drwy nodi ffyrdd o fod yn ystwyth, hyblyg, galluog a fforddiadwy. Ymysg uchafbwyntiau'r rhaglen mae'r canlynol:

- Crëwyd Swyddfa Cabinet Cymru er mwyn darparu mwy o allu strategol i gefnogi'r Prif Weinidog a'r Cabinet wrth ysgogi a chydlynu busnes y llywodraeth.
- Mabwysiadwyd dull cyffredin o gynllunio busnes ar draws y sefydliad gan wneud y cynlluniau'n fwy gweledol, gwella'r adroddiadau ar gynnydd ac annog mwy o gydweithio.
- Mae cynllun peilot ffordd newydd o ddosbarthu adnoddau yn symud pobl i swyddi yn gyflym er mwyn bodloni blaenoriaethau gweinidogol a busnes. Arweiniodd adborth at welliannau tymor hirach i drefniadau adnoddau.
- Cyflwynwyd system ffôn a chyfathrebu busnes newydd ar draws y sefydliad. Roedd y system yn cynnwys negeseua gwib, gwell gwasanaethau neges llais a theclyn presenoldeb sy'n galluogi pobl i weld os yw cydweithwyr ar gael, a'u lleoliad.
- Cynhaliwyd cynllun peilot hyblyg yn swyddfa Merthyr er mwyn gweld sut y gallai arferion hyblyg fod o fantais i gydweithwyr er mwyn cyflawni eu hamcanion busnes, ac roedd yn cynnwys cyflwyno gwahanol fath o ofod gwaith a threialu polisïau AD byrrach, cliriach. Yn dilyn y gwerthusiad, cytunodd y Bwrdd i edrych ar y posibilrwydd o'i gyflwyno ymhellach ar draws y sefydliad.
- Cynhaliwyd dadansoddiad o weinyddiaeth grantiau ac fe gychwynnwyd ar y gwaith o ganoli gweinyddiaeth ar lefel Grŵp.
- Gwaith cynnar i adnabod anghenion gallu'r gweithlu yn y dyfodol a'r bylchau mewn sgiliau yng ngoleuni'r tirlun sy'n newid.

- Cyhoeddi cyrchfan newydd ar gyfer deunyddiau dysgu a datblygu arweinyddiaeth ar fewnrwyd y staff.
- Gwelliannau i lywodraethiant masnachol yn arwain at £4.7m o arbedion caffael.

## Diogelu ein sefydliad at y dyfodol

Mae'r fenter newydd i ddiogelu at y dyfodol yn canolbwyntio ar adeiladu gwasanaeth sifil cryf, medrus a chynaliadwy i Lywodraeth Cymru, gyda'r cyfarpar cywir i gefnogi'r Gweinidogion a'u helpu i gyflawni eu hamcanion. Mae'n ceisio sicrhau bod y gallu, hyder, arweiniad a chadernid yn eu lle i wynebu'r gyfres eithriadol o heriau sydd o'n blaen ac i roi sylfaen gref at y dyfodol.

Bydd yn cynnwys cydweithwyr ar bob lefel yn adeiladu diwylliant cynhwysol, perfformiad uchel sy'n wirioneddol gydweithiol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau – gan adlewyrchu'r ymrwymiad i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae rhaglenni dysgu a datblygu'n cael eu hadnewyddu er mwyn sicrhau buddsoddiad yn y sgiliau cywir ac archwilio ffyrdd mwy arloesol a rhagweithiol o gyfnewid a chynnig secondiad; ystyried trefniadau camu ymlaen mewn gyrfa; a gwella prosesau rheoli perfformiad a gwerthuso.

Mae'r gwaith diogelu at y dyfodol yn ddull gweithredu tymor hir, ac fe fydd yn gweld gwelliant parhaus yn ystod 2017-18 a thu hwnt.

## Dod yn lle tecach i weithio

Yn ystod 2016-17, datblygwyd Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant 2017-2020 gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dilyn ymgynghoriad ar draws y sefydliad. Mae'r cynllun yn dangos sut bydd Llywodraeth Cymru'n bodloni ei amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol o 'fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020'.

Yn ogystal â'i darged o weld menywod yn 50% o'r Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2020, cytunodd y Bwrdd y byddai'n cyflwyno dau darged arall sef cynyddu cyfanswm nifer y staff o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o 2% i 2.5% erbyn 2020, a chynyddu nifer y staff anabl o 4.8% i 5.8% erbyn 2020.

Cyflawnwyd nifer o gamau gweithredu er mwyn helpu i gyrraedd y targedau hyn gan gynnwys:

- Sicrhau bod holl hysbysebion yr Uwch Wasanaeth Sifil yn defnyddio iaith gynhwysol
- Datblygu amcan gorfodol newydd i reolwyr llinell ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a chyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Cynllun peilot mentora o chwith.
- Cynllun peilot toiledau niwtral o ran y rhywiau.
- Rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer y rhwydweithiau amrywiaeth.
- Datblygu polisi addasu'r gweithle.
- Hyfforddiant ar gyfer swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl.

- Hyfforddiant Cynghreiriaid Stonewall ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil a Bandiau Gweithredol.
- Datblygu rhaglen allgymorth.
- Cynhaliwyd ‘Wythnos Cydraddoldeb’ ym mis Mehefin 2016 er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a swyddogaeth y rhwydweithiau amrywiaeth.

Defnyddiwyd nifer o gynlluniau meincnodi i asesu’r gwaith sy’n digwydd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2017, gosodwyd Llywodraeth Cymru yn safle 25 yn y DU, y 5ed yng Nghymru a’r 3ydd sefydliad llywodraeth ar draws y DU.

Ym mis Medi 2016, cafodd Llywodraeth Cymru achrediad ‘Disability Confident’ Lefel 2. Mae’r gwaith yn mynd rhagddo i ymgeisio am Lefel 3.

Enillodd Llywodraeth Cymru dystysgrif ‘statws aur’ ac roedd yn 2il allan o 16 adran llywodraeth yng ngwiriad iechyd a:gender 2016. a:gender yw rhwydwaith sy’n cefnogi gweithwyr mewn adrannau’r llywodraeth sydd wedi neu sydd angen newid eu rhywedd yn barhaol, neu sy’n ystyried eu hunain yn rhyngrywiol.

## Prentisiaid Llywodraeth Cymru a Dysgu a Datblygu

Recriwtiwyd 20 o brentisiaid newydd gan Lywodraeth Cymru llynedd, pob un yn dilyn NVQ Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes. Hefyd mae staff presennol wedi cael cyfle i ddilyn prentisiaeth 18 mis, gan astudio tuag at NVQ Lefel 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheoli.

Ar hyn o bryd mae 16 aelod o staff ar y cynllun hwn. Mae 500 o weithgareddau dysgu a datblygu wedi’u cynnal, gan anelu at bob lefel, o’r graddau iau i aelodau’r Uwch Wasanaeth Sifil. Roedd y gweithgareddau hyn wedi’u hategu’n bellach gan amrywiaeth eang o systemau dysgu ar-lein. Cefnogwyd 239 o gydweithwyr i gwblhau hyfforddiant achrededig yn y Gymraeg, o’r Lefel Sylfaen i’r Lefel Uwch.



## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol Llywodraeth Cymru yn unol â'r cyfarwyddydau a roddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi. Mae cyfarwyddydau'r Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol rhoi manylion yr adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod.

Mae'r cyfrifon adnoddau cyfunol yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg gywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r endidau eraill o fewn y grŵp ar ddiwedd y cyfnod, ac o'u gwariant net a'u llifoedd arian am y cyfnod ariannol.

Mae gan Brif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru gyfrifoldeb dros drefniadaeth, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau ar draws y Llywodraeth mewn cyllid a materion eraill, lle bo'r rhain yn briodol, a thros ofyniad arian parod net Llywodraeth Cymru. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) ac, yn enwedig: i barchu'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson; i ffurfio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol; i ddatgan a yw'r safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn y Llawlyfr, wedi'u dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; ac i baratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

O dan adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn cael dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y GIG yn swyddog cyfrifyddu'r GIG yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu penodi'n Swyddogion Cyfrifol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi wrth gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano, dros gadw cofnodion priodol, dros ddiogelu asedau Llywodraeth Cymru a thros gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall, wedi'u nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Nodir y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu eraill, fel y'u disgrifir uchod, a'u priod gyfrifoldebau, mewn cytundebau ysgrifenedig rhwng y swyddogion o dan sylw.

## Datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, rwyf yn cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i wneud yn siŵr fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilydd allanol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

# Datganiad Llywodraethiant

## Cyflwyniad

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau safonau uchel o ran uniondeb wrth reoli arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, sy'n hwyluso'r broses o arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol trwyddynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethiant a bwriedir iddi reoli risg ar lefel resymol. Mae "Fframwaith Rheolaeth Cyffredin" Llywodraeth Cymru yn nodi'r dirprwyaethau sydd ar waith yn gyson ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru.

Mae'r fframwaith llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol hefyd yn cael eu rheoli gan broses barhaus o reoli risg, sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff effaith y risgiau hynny ei gwireddu ac wedyn i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r fframwaith llywodraethiant wedi cael ei ddatblygu i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant da ac fe'i cefnogir gan "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru", sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer ymdrin ag adnoddau yng nghyrff Sector Cyhoeddus Cymru. Cafodd "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" ei ddiweddaru ddiwethaf yn Ionawr 2016 ac fe gaiff ei adolygu a'i ddiweddaru ymhellach yn ystod 2017/18.

## Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni ei nodau a'i hamcanion, yn rhannol, trwy nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, is-gwmnïau a chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Swyddogion Cyfrifyddu (neu Brif Weithredwyr) a benodir i bob corff yn gyfrifol am reolaeth eu corff ar arian cyhoeddus ac mae'n ofynnol iddynt lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn ffurf briodol o ddogfen ysgrifenedig ar gyfer pob corff.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys Aelodau Anweithredol ac Aelodau Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol allweddol ynghylch sut y datblygir Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i gefnogi Prif Weinidog Cymru, Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion a sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cyflawni'r amcanion a'r strategaethau a nodir yn rhaglen lywodraethu'r Gweinidogion sef "Symud Cymru Ymlaen" yn ogystal â gweithredu ein hymrwymiadau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bu Syr Derek Jones KCB yn cadeirio'r Bwrdd hyd at ddyddiad fy mhenodiad. Fi gadeiriodd gyfarfodydd y Bwrdd yn Chwefror a Mawrth 2017. Roeddwn i a'm rhagflaenydd yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau'r Bwrdd ar sail ddwyochrog ac â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar y cyd yn fisol. Gan edrych at y dyfodol, rwyf wedi cytuno â'r Prif Weinidog y bydd yn ymgysylltu â'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

| | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol (Chwefror-Mawrth 2017) | 2/2 |
| Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol (Ebrill 2016-Ionawr 2017) | 6/6 |
| James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 7/8 |
| Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 8/8 |
| Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Prif Weithredwr y GIG) | 8/8 |
| David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 8/8 |
| Jeff Godfrey, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 7/8 |
| Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 8/8 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid | 8/8 |
| Gillian Baranski, arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd | 8/8 |
| Natalie Pearson, Dirprwy Gyfarwyddwr, Ymgysylltu ac Arloesi | 8/8 |
| Sioned Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau | 6/8 |
| Elan Closs Stephens, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/8 |
| James Turner, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Adrian Webb, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/8 |
| Ann Keane, Cyfarwyddwr Anweithredol | 6/8 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o'i Berfformiad

Yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2017, adolygodd y Bwrdd ei berfformiad ar y cyd dros y cyfnod adrodd gyda chymorth gwerthusiad strwythuredig. At ei gilydd, roedd y Bwrdd yn credu ei fod wedi gweithio'n effeithiol ac wedi darparu'r cymorth a'r oruchwyliaeth briodol i'r Ysgrifennydd Parhaol. Er hynny, fe gytunodd i adolygu ei Gylch Gorchwyl a strwythur ei agendâu ac mae newidiadau wedi'u rhoi ar waith eisoes i roi mwy o bwyslais ar oruchwylio a monitro'r gwaith o roi strategaethau trawsbynciol Llywodraeth Cymru ar waith, a chydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ystod 2017/18 byddaf hefyd yn adolygu Cylch Gorchwyl pob un o Is-bwyllgorau'r Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Chylch Gorchwyl newydd y Bwrdd ac yn ei ategu.

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roedd fy rhagflaenydd a minnau hefyd yn cael ein cynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd (y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth) dan arweiniad cyfarwyddwyr anweithredol a chan un Is-bwyllgor gweithredol y Bwrdd (y Pwyllgor Gweithrediadau).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Archwilio a Risg

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru yn fy nghefnogi ar faterion sicrwydd. Dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Anweithredol, bu'r Pwyllgor yn ein cynghori drwy gydol y flwyddyn – Syr Derek yn gyntaf a minnau wedyn – yn rhinwedd ein swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu. Bu Pwyllgorau Archwilio a Risg yn gweithredu ar lefel Grŵp hefyd yn ystod 2016/17, ac roedd eu Cadeiryddion hwythau'n aelodau o Bwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru. Nid fu unrhyw newidiadau yn aelodaeth na strwythur Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Tâl Cydnabyddiaeth

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw Is-bwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil, ac mae'n gyfrifol am dâl ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil, cynllunio ar gyfer uwch olyniaeth a recriwtio a holl achosion personol yr Uwch Wasanaeth Sifil. Dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Anweithredol, cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn; mynychodd Syr Derek bedwar cyfarfod a mynychais innau ddau. Nid yw'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn pennu fy nghyflog i – Swyddfa Cabinet y DU sy'n gyfrifol am hynny.

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Gweithrediadau

Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau yn fy nghynorthwyo i ac uwch-arweinwyr â gwaith rhedeg mewnol y sefydliad ar lefel weithredol, gan ganiatáu i'r Bwrdd ganolbwyntio ar faterion strategol. Cynigiodd y Pwyllgor gyngor ar redeg Llywodraeth Cymru ac ar oruchwyliaeth a rheolaeth mewn perthynas â hynny, a bu ar waith am y flwyddyn gyfan.

## Yr Uwch-dîm Arwain

Drwy gydol 2016/17, roedd fy rhagflaenydd a minnau'n cael ein cefnogi gan dîm arwain o ddau Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol a Chyfarwyddwr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp o fewn Llywodraeth Cymru. Byddaf yn achub ar y cyfle a ddaw cyn hir, yn sgil yr angen i lenwi'r ddwy swydd Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, i adolygu arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru ar y lefel honno yn ystod 2017/18. Mae strwythur y Grŵp wedi'i rannu ymhellach yn gyfarwyddiaethau sy'n cyfateb i'r meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli i'w gweinyddu gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n dra ymwybodol o'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gwaith yn unol â'r nodau a'r dulliau gweithio sydd wedi'u pennu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyflwynwyd offeryn cynllunio busnes newydd yn 2016 ac mae hwn yn helpu i sicrhau bod holl waith Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant. Adolygwyd dulliau gweithio yn ogystal â phrosesau a gweithdrefnau, gan gynnwys dogfennau ffurfiol megis llythyrau dyfarnu grantiau. Fodd bynnag, y ffordd fwyaf effeithiol o wireddu'r amcanion llesiant fydd y gwaith a wneir yn fewnol i godi ymwybyddiaeth y staff ac i annog ymddygiadau sy'n hybu gwaith traws-sefydliadol. Bydd y strategaethau trawsbynciol y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n eu mabwysiadu yn cryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig.

Dynodir swyddogion yr Uwch-dîm Arwain yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol er mwyn rhoi iddynt gyfrifoldeb ac atebolrwydd personol dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol ac yn rheolaidd a thros sicrhau gwerth am arian ar fy rhan i. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i gryfhau llywodraethiant ac atebolrwydd corfforaethol ymhellach, o ran defnyddio cyllid cyhoeddus yn ogystal ag o ran atebolrwydd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

## Y Grŵp Busnes

Swyddogaeth y Grŵp Busnes yw hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth i sicrhau bod yr holl Gyfarwyddwyr yn gyfarwydd â'r materion cyfredol ar draws y sefydliad. Yn ystod 2016/17, roedd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant ac yn cael eu mynychu gan staff ar lefel Cyfarwyddwr ac uwchlaw hynny, gan gynnwys Syr Derek ac yna finnau, a chawsant eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

## Chwythu'r Chwiban

Cyfarfu'r Panel Chwythu'r Chwiban yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ystyried achosion o chwythu'r chwiban, er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon ond gyda gofal mawr i gadw cyfrinachedd. Cyflwynodd y Panel adroddiad i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2017. Mae'r Cod Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil yn esbonio'r hyn y dylai staff ei wneud os ydynt yn amau cydweithiwr o gamwedd. Mae gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar y fewnrwyd hefyd.

Rhoddwyd gwybod am chwe achos i'r Panel eleni. Roedd dau'n ymwneud â Rheolau ar Benodiadau Busnes yn achos staff a oedd wedi ymadael â Llywodraeth Cymru. Cafwyd nad oedd sail i'r naill na'r llall. Roedd tri'n ymwneud â materion staffio a chawsant eu datrys yn fewnol. Roedd un yn ymwneud â mater allanol a chafodd ei gyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol.

Ddiwedd y flwyddyn, aethom ati i adolygu ein trefniadau gan ddefnyddio offeryn gwirio Swyddfa Gabinet y DU ar gyfer chwythu'r chwiban, ac roeddem yn falch o gadarnhau bod ein trefniadau'n gadarn ac yn cyd-fynd ag arferion da, heblaw am ambell fân welliant yr oedd angen ei wneud i godi ymwybyddiaeth y staff.

Yn ogystal â'r Panel Chwythu'r Chwiban, mae'r Panel Sicrwydd Allanol yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd mewn perthynas â chyrff sy'n cael arian cyhoeddus oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu ymateb cyson, cymesur a priodol i bryderon am sut y mae ein partneriaid cyflenwi a buddiolwyr ein cynlluniau grant wedi trin cyllid Llywodraeth Cymru. Mae'r Panel yn cynnig cyngor i swyddogion ac yn nodi materion systemig y mae angen mynd i'r afael â hwy. Cafodd deg achos eu hystyried gan y panel yn ystod y flwyddyn. Mae pump o'r rhain yn dal ar y gweill a chafodd y pump arall eu cau yn ystod y flwyddyn.

## Adolygiad Effeithiolrwydd Blynyddol y Prif Swyddog Cyfrifyddu

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei chyfer. Mae fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd oddi wrth ymatebion rheoli i faterion a nodwyd gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei Lythyr Rheoli blynyddol, a hefyd oddi wrth ymatebion rheoli i adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Craffu eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnal eu hymchwiliadau eu hunain.

Rwyf hefyd yn cael fy nghynghori ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae eu cyngor wedi llywio fy adolygiad ar gyfer 2016/17. Yn ogystal, Syr Derek Jones, KCB oedd yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017. Roedd y sicrwydd a roddodd ef i mi wrth gamu i lawr ar 3 Chwefror 2017 yn cyfrannu at yr ystod o fesurau sicrwydd sydd wedi llywio fy ngwerthusiad o'r system rheolaeth fewnol.

O dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion eraill y mae wedi'u penodi, mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n cwmpasu meysydd allweddol o fywyd cyhoeddus. Mae ystod eang o reolaethau mewnol ar waith i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau. O'm hadolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant, rwyf yn fodlon bod y risg wedi'i rheoli'n dda a bod y systemau rheolaeth fewnol yn parhau i wella.

## Archwilio Mewnol

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn gweithio yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cynhaliodd y Gwasanaeth raglen waith lawn yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Cyflwynodd adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgorau Archwilio a Risg, ar lefel Grŵp yn ogystal ag ar lefel Llywodraeth Cymru, wrth roi'r cynllun archwilio hwn ar waith, ac fe gyfarfu fy rhagflaenydd a minnau â'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rheolaidd i drafod materion archwilio a sicrwydd.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydgysylltu ei waith â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae protocol cydweithio'n sail i'r dull gweithredu a ddefnyddir ac mae cyfarfodydd cyswllt wedi'u cynnal o bryd i'w gilydd i rannu gwybodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy ffynhonnell annibynnol hyn o sicrwydd yn rhoi cryn gysur imi o ran sicrhau gwerth am arian a dibynadwyedd y cyfrifon ariannol, yn achos Swyddfa Archwilio Cymru, ac o ran gweithredu'r fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth, yn achos y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Yn ei hadroddiad Barn Flynyddol ar Sicrwydd, rhoes y Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd "rhesymol" imi ynghylch y modd y gweithredir y fframwaith llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg yn Llywodraeth Cymru. Ategwyd hyn gan y sicrwydd "rhesymol" a ddarparwyd gan bob un o'r Uwch-arweinwyr mewn perthynas â'u Grwpiau.

## Y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd

Yn ogystal, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei datganiad cau terfynol ar gyfer Rhaglenni Gweithredol Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 ym mis Chwefror 2017. Roedd y datganiad yn cynnwys Adroddiad Rheoli Terfynol a Barn gan y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd. Roedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar yr holl waith archwilio a wnaed gan y tîm yn unol â'i strategaeth archwilio ar gyfer y Rhaglenni ac roedd hefyd yn cynnwys yr wybodaeth yr oedd ei hangen o dan yr Adroddiad Rheoli Blynyddol am y cyfnod 1 Ionawr 2015 i 31 Rhagfyr 2016.

Casglodd yr Adroddiad Cau Terfynol fod y datganiadau terfynol o wariant a'r ceisiadau am dalu balans terfynol y Rhaglenni yn ddilys a bod y trafodiadau gwaelodol o wariant yn gyfreithiol ac yn rheolaidd, ac felly bod 'barn ddiamod' yn cael ei darparu. Mae'r datganiad wrthi'n cael ei ystyried gan y Comisiwn Ewropeaidd.

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio

Ar sail ei waith dros y cyfnod adrodd, darparodd y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17, sicrwydd rhesymol ynghylch digonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ynghylch dibynadwyedd, uniondeb a natur gynhwysfawr y sicrwydd a oedd ar gael i'w rhoi i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth. Yn arbennig, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi nodi'r drefn well o gadw ar drywydd argymhellion adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru dros y flwyddyn, ynghyd â manteision y ffaith fod swyddogion yn cymryd rhan yn gynharach yn y broses o gymeradwyo adroddiadau. Rwyf yn fodlon fod y Pwyllgor Archwilio a Risg, ynghyd â Phwyllgorau Archwilio a Risg y Grwpiau, wedi gweithredu'n effeithiol ac wedi cynnig cymorth da wrth fonitro ac adolygu prosesau risg, rheolaeth a llywodraethiant.

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Fe'i gwneuthum yn ofynnol hefyd i uwch-arweinwyr gwblhau Holiadur Rheolaeth Fewnol ar gyfer eu Grŵp, yn ogystal â'u Datganiad Sicrwydd personol er mwyn rhoi i mi eu hasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grŵp.

## Materion Rheolaeth Fewnol

Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, ar y cyfan, fframweithiau cadarn o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, mae rhai materion nodedig wedi dod i'r amlwg yn y fframweithiau hyn yn ystod y flwyddyn ac rydym wedi mynd i'r afael â'r rhain, neu wrthi'n gwneud hynny, ac yn gwneud gwelliannau fel y nodir isod.

### Materion Twyll

Tua diwedd 2016, cafodd Llywodraeth Cymru ohebiaeth ddienw yn honni bod twyll wedi bod yn y defnydd o grantiau Llywodraeth Cymru gan NSA Afan, elusen a leolir ym Mhort Talbot. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymchwiliad i ystyried a oedd stiwardiaeth briodol wedi bod ar arian cyhoeddus ac i edrych ar y ffordd yr oedd grantiau wedi'u gwario a sut y cyfrifwyd amdanynt. Canfu'r ymchwiliad ddigon o dystiolaeth o afreoleidd-dra ariannol a phryderon am effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant a rheolaeth y sefydliad i olygu nad oedd gan Lywodraeth Cymru hyder bellach yng ngallu NSA Afan i reoli a diogelu arian cyhoeddus. Am y rheswm hwn, terfynwyd cyllid Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn Elusennau a'r heddlu i fynd i'r afael â'r mater hwn ymhellach.

Mae Datganiadau Llywodraethiant mewn blynyddoedd blaenorol wedi cynnwys sylwadau am dwyll a nodwyd yn y cynllun Tocynnau Bws Rhatach, ac er i ddwy euogfarn gael eu sicrhau y llynedd, mae ymchwiliadau'r heddlu yn dal i fynd rhagddynt. Serch hynny, rwyf wedi cael sicrwydd gan swyddogion ar ganlyniad y camau a gymerwyd i wella ein galluogrwydd gwrth-dwyll, gan gynnwys defnyddio dadansoddeg data i holi gwybodaeth reoli. Mae hyn wedi'i brofi i fod yn effeithiol iawn yn ystod y flwyddyn.

### Llywodraethiant Cyrff Hyd Braich

Cadarnhaodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei waith amodi ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015/16 ar sail "rheoleidd-dra" ac, ers hynny, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cyhoeddi ei adroddiad ei hun ar sut yr ymdriniodd Cyfoeth Naturiol Cymru â chontractau sylweddol ar gyfer gwerthu coed. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwella trefniadau llywodraethiant o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys y broses benderfynu ar gyfer gosod contractau o'r fath. Rwyf wedi cael fy sicrhau fod rheolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd ar drywydd cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghylch y trafodiad hwn.

Yn dilyn materion a gododd mewn perthynas â nifer o "Gyrff Hyd Braich", mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn adolygiad eang o'i threfniadau llywodraethiant a noddi ar gyfer cyrff cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ei "Chyrff Hyd Braich" Ar hyn o bryd trefnir nawdd mewn ffordd wasgaredig ar draws nifer o dimau polisi. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw'r trefniant hwn yn sicrhau ymgysylltu digon cadarn â chyrff a noddir, a chymorth iddynt, a bydd hefyd yn cynnig sicrwydd ynghylch priodoldeb y protocolau llywodraethiant a goruchwylio sydd eisoes yn bodoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei chynorthwyo yn yr adolygiad hwn gan gyhoeddiad amserol papur trafod ar lywodraethiant "Cyrff Hyd Braich" gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gynhaliodd seminar hefyd ym mis Tachwedd i uwch-swyddogion drafod yr adroddiad. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd o'r papur hwn wrth iddi gynnal ei hadolygiad a chyflwyno ei hargymhellion.

### Rheoli Grantiau, gan gynnwys Gwiriadau Diwydrwydd Dyladwy

Yn sgil cyhoeddi adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, cymerodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dystiolaeth ym mis Chwefror 2017 ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i phecyn ariannu i Kancoat, busnes caenu metel. Rhwng 2013 a 2014, roedd pecyn o £3.4m wedi'i ddarparu i gefnogi'r cwmni gan gynnwys benthyciad masnachol, cymorth eiddo a grant busnes. Aeth y busnes i'r wal tua diwedd 2014. Ar ôl hynny, cynhaliodd y tîm polisi ei ymarfer gwersi a ddysgwyd ei hun ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgorffori'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad, i gryfhau ei fframwaith ar gyfer penderfyniadau mewn perthynas â buddsoddiadau o'r fath. Rwyf wedi cael fy sicrhau bod gwelliannau wedi'u gwneud i brosesau a gweithdrefnau, gyda chynnydd yn cael ei gadarnhau gan waith Archwilio Mewnol yn ddiweddar yn y maes hwn.

Ddwywaith yn ystod y flwyddyn, daeth yn amlwg nad oedd pridiannau wedi'u sicrhau ar fangreoedd a ariannwyd gan grantiau Llywodraeth Cymru yn y gorffennol. Mae sicrhau pridiant yn rhag-amod safonol cyn rhoi grant o'r fath – i amddiffyn arian cyhoeddus pe bai sefydliad sy'n ei dderbyn yn methu (gan ganiatáu i'r grant gael ei adennill) – ond ni wnaed hynny yn yr achos hwn gan dderbynnydd y grant. Ni chafodd unrhyw achosion eraill eu nodi yn sgil ymchwiliadau gan swyddogion, ac mae'r gwiriadau diwydrwydd dyladwy wedi'u cryfhau mewn perthynas â sicrhau pridiannau.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal adolygiad o gyllid cychwynnol Cylchffordd Cymru ac fe gyhoeddwyd ei adroddiad ychydig wedi diwedd y flwyddyn ariannol. Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at faterion nad oeddent wedi'u cadarnhau'n ddigonol gan Lywodraeth Cymru cyn darparu cyllid i'r Cwmni Datblygu. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei phrosesau ar gyfer graddau a natur y gwiriadau diwydrwydd dyladwy y mae gofyn eu cynnal cyn dyfarnu a thalu grantiau. Yn dilyn sesiynau tystiolaeth diweddar, bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cyhoeddi ei adroddiad a'i argymhellion ei hun, a bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb iddynt maes o law.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol imi asesu ein risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chanllawiau'n cael eu rhoi iddynt ynghylch sut y mae'n rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Caiff diogelwch TG ei asesu cyn dyfarnu contract sy'n gofyn am i wybodaeth bersonol gael ei phrosesu gan drydydd parti, a chaiff cymalau sicrhau gwybodaeth eu cynnwys yn safonol mewn manylebau gofynion trwy gyfrwng Llythyr Agweddau ar Ddiogelwch. Rydym hefyd yn dilysu bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn cael gwiriad iechyd TG annibynnol ac yn bodloni safon "Cyber Essentials".

Mae systemau TG corfforaethol Llywodraeth Cymru a'r polisïau diogelwch cysylltiedig yn parhau i gydymffurfio ag ISO 27001, y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, ac maent yn cyd-fynd ag arferion a gweithdrefnau a argymhellir. Cadarnhawyd hyn gan y rhaglen o waith archwilio a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, gan ganlyniad cadarnhaol yr archwiliad o'n trefniadau cryptograffig gan y Grŵp Diogelwch Electroneg Cyfathrebu (Awdurdod Technegol Gwladol y DU ar gyfer Sicrhau Gwybodaeth) a chan y sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael gan Uwch-berchennog Cyfrifol am Wybodaeth Llywodraeth Cymru.

Rwyf yn falch o adrodd bod yr achosion o golli data yn 2016/17 yn is nag ar gyfer 2015/16. Rhoddwyd gwybod am dri achos o golli data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, ond ni chymerwyd camau pellach gan fod y Comisiynydd o'r farn bod rheolaethau Llywodraeth Cymru, megis hyfforddiant staff, polisïau clir a chyfarwyddiadau desg, eisoes yn bodoli. Isod, nodir mân ddigwyddiadau nad oedd angen adrodd amdanynt.

**Crynodeb o Ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â Data Personol a Ddiogelir**

Isod, nodir digwyddiadau nad yw'r Rheolydd Data yn barnu eu bod yn perthyn i'r meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sy'n cael eu cofnodi'n fewnol

| Math | Natur y digwyddiad | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 5 | 5 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 1 | 2 |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol | - | - |
| IV | Datgeliad heb ei awdurdodi | 33 | 21 |
| V | Arall | 3 | 5 |

Er bod y gostyngiad mewn "datgeliadau heb eu hawdurdodi" i'w groesawu, a minnau'n cymryd sicrwydd o'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn, a gadarnhaodd fod trefniadau rheoli yn y maes hwn yn ddigonol, nid ydym yn llaesu dwylo ac rydym yn parhau i weithio i fynd i'r afael â'r rhesymau drostynt.

## Atebolrwydd Lleol

Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

### Awdurdodau Lleol

Rhoddir cyllid grant i Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Y gydran unigol fwyaf o gyllid grant yw'r Grant Cynnal Refeniw a delir i'r awdurdodau unedol, y gellir ei defnyddio at unrhyw ddiben wrth ddarparu'r Gwasanaethau y mae'r awdurdodau hynny'n gyfrifol amdanynt. Dosberthir y Grant Cynnal Refeniw ar sail fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr Awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol.

Darperir cyllid hefyd i'r Awdurdodau trwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y'u darperir ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, incwm o ardrethi annomestig a bennir yn genedlaethol ac a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru, o'r Dreth Gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae awdurdodau unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf, sy'n cael ei atodi gan eu gallu benthyca eu hunain.

Mae trefniadau tebyg yn berthnasol i'r ddarpariaeth ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, sy'n cael eu hariannu trwy gymysgedd o Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu oddi wrth Lywodraeth Cymru a Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref, o grantiau penodol ac o'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu trwy drefniadau megis ardollau a phraeseptau.

Mae pob Awdurdod yn atebol am sut y mae'n defnyddio'r cyllid i gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae gan Awdurdodau Unedol swyddog penodedig o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae awdurdodau'n cael eu dwyn i gyfrif gan eu swyddogaethau craffu ac maent hefyd yn destun archwiliadau gwella blynyddol a gynhelir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n rhoi sylw i werth am arian yn ogystal â materion llywodraethiant a chapasiti.

O ran cyllid a ddarperir at ddibenion penodol, mae telerau ac amodau grantiau yn gyfrifoldeb i'r adrannau polisi perthnasol. Mae'n ofyniad o dan y telerau a'r amodau hyn i roi sylw dyledus i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer cyllid grant. Dylai cadw at y safonau hyn sicrhau y cydymffurfir â threfniadau llywodraethiant ac ariannol Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r gyfraith, y polisïau a'r arferion da perthnasol. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Adran berthnasol o Lywodraeth y DU.

O dan y Protocol ar Gefnogi ac Ymyrryd ym Materion Llywodraeth Leol, ar ddiwedd 2016/17, nid oedd unrhyw Awdurdodau Lleol yn cael eu dynodi'n rhai sydd o dan "fesurau arbennig". Mae Cynadleddau Gwella a Chymorth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd i drafod lle y gallai cymorth ychwanegol gael ei gynnig i helpu'r Awdurdodau Lleol i wella.

### Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir arian hefyd i dalu costau taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys Ymarferwyr Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a Fferyllwyr. Mae arian wedi'i dargedu yn cael ei ychwanegu at y dyraniad craidd er mwyn helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i Fyrddau Iechyd Lleol i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

Yn ei Ddatganiad Llywodraethiant ar gyfer 2016/17 mae Prif Weithredwr y GIG wedi dweud bod pob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth y GIG wedi datgan eu hasesiad o fewn eu priod Ddatganiadau Llywodraethiant Blynyddol ac, yn gyffredinol, fod systemau cadarn o reolaeth fewnol yn bodoli i gefnogi'r broses o gyflawni eu nodau a'u hamcanion polisi ar gyfer 2016/17. Mae pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol a'r tair Ymddiriedolaeth GIG wedi adrodd casgliad o ddim materion llywodraethiant sylweddol yn eu Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol, ond mae pob un wedi nodi meysydd llywodraethiant lle mae angen gwelliannau.

2016/17 yw'r drydedd flwyddyn y mae cyfrifon y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi'u paratoi o dan drefn ariannol tair blynedd y GIG, a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) o 1 Ebrill 2014. Nid yw pedwar o'r deg sefydliad wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros dair blynedd. Llwyddodd Abertawe Bro Morgannwg i fantoli'r cyfrifon yn 2014/15 a 2015/16 ond methodd â gwneud hynny yn 2016/17; methodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro â gwneud hyn yn 2014/15 a 2016/17 ond llwyddodd i fantoli'r cyfrifon yn 2015/16; mae byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda wedi methu â mantoli'r cyfrifon ym mhob un o'r tair blynedd. Felly, mae'r pedwar sefydliad hyn wedi methu â chyflawni eu dyletswydd ariannol am y cyfnod tair blynedd cyntaf ac, o ganlyniad, maent wedi cael barn wedi'i hamodi ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar eu cyfrifon 2016/17.

Roedd y pedwar Bwrdd Iechyd a fethodd â mantoli'r cyfrifon yn 2016-17 wedi mynd i ddiffygion o £148m ym 2016/17 ac wedi cronni diffyg o £254m dros gyfnod tair blynedd yr asesiad dyletswydd ariannol. At ei gilydd, yn 2016/17, mae'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi mynd i ddiffyg net o £148m. Cymerwyd camau drwy gydol 2016/17 i reoli'r diffygion a gafwyd yn y gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. O ganlyniad, nid yw'r dyraniad i'r gyllideb Iechyd, Llesiant, a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i dorri ac nid yw cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i thorri yn gyffredinol.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r pryderon ynglŷn â pherfformiad ariannol yn y pedwar bwrdd iechyd a oedd mewn diffyg trwy fframwaith uwchgyfeirio'r GIG. Gosodwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn mesurau arbennig ym mis Mehefin 2015. Er nad oedd materion ariannol yn rheswm pendant dros ei osod mewn mesurau arbennig, mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei fonitro ynghyd â'r meysydd eraill sy'n peri pryder.

Cafodd y tri Bwrdd arall a oedd mewn diffyg hefyd eu rhoi dan fesurau ymyrraeth wedi'i thargedu ym mis Medi 2016 a bu Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r sefydliadau hyn i roi her a chefnogaeth iddynt. Roedd hyn yn cynnwys cynnal adolygiadau llywodraethiant ariannol, a fu'n adolygu'r prosesau llywodraethiant a gwneud penderfyniadau a fabwysiadwyd gan y sefydliadau wrth ddatblygu eu cynlluniau ariannol, sut yr oedd eu hadroddiadau ar berfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn yn cael eu llywodraethu a sut yr oeddent yn ymgysylltu â'r Bwrdd ar y materion hyn. Daeth yr adolygiadau hyn i ben yn ddiweddar a bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y gwersi i'w dysgu a'r camau y bydd angen eu cymryd.

Mae'r mesurau ymyrryd blaengar hyn gan Lywodraeth Cymru yn y pedwar bwrdd iechyd yn dangos y bwriad i annog disgyblaeth ariannol gryfach yng ngwaith cyllidebu Byrddau Iechyd Lleol fel bod modd rheoli'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yn well a sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mewn modd cynaliadwy.

## Proffil Risg

Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. Mae nifer o risgiau digwyddiadol (heriol ond annhebygol o gael eu gwireddu) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio, er enghraifft, ei chyfrifoldebau pe bai achosion o glefyd pobl neu anifeiliaid yn codi yng Nghymru, ei chyfrifoldeb dros seilwaith trafnidiaeth Cymru a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n eu gwneud o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru. Yn ogystal â risgiau digwyddiadol, mae Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo nifer o risgiau hirdymor lle mae'r risg yn deillio o'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y canlyniad neu'r gost iddi, megis Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r cynllun "Cymorth Prynu".

O ddydd i ddydd mae risgiau gweithredol yn codi, yn gyffredinol, yn sgil yr her o sicrhau digon o gapasiti a galluogrwydd i gynghori ar amcanion polisi allweddol y Prif Weinidog a'i Gabinet, ac i'w cyflawni. Mae'r gallu i ymateb i argyfwng sifil wedi cael ei fonitro drwy'r flwyddyn, o ystyried y risg o ddigwyddiad terfysgol.

Fel y byddid yn disgwyl, nododd y Bwrdd mai'r ansicrwydd ynghylch canlyniad ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd oedd y risg newydd fwyaf tyngedfennol a gododd yn ystod y flwyddyn. Mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn cynnig risgiau o ran bygythiadau yn ogystal â risgiau o ran cyfleoedd. Mae gwaith ar y gweill i liniaru'r bygythiadau ac i wneud yn fawr o'r cyfleoedd, a hynny trwy fynd ati i gyfleu blaenoriaethau Cymru a thrwy'r trefniadau sydd ar waith i arwain gwaith polisi, gwaith cyfreithiol, gwaith dadansoddi a gwaith cysylltiedig arall, o dan arweiniad Tîm Trefniadau Pontio Ewropeaidd Llywodraeth Cymru a thrwy gefnogi'r Grŵp Cynghori ar Ewrop, i sicrhau ymgysylltu effeithiol. Yn sgil digwyddiadau ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r risg bosibl mewn perthynas â'r materion diogelwch tân a nodwyd mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru, a rhoi sylw i'r materion hynny.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Seilir polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru ar ganllawiau "Orange Book" Trysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer rheoli risg ac mae'n anelu at sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru'n ymdrechu'n ormodol i osgoi risg. Wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu'r polisi a'r broses rheoli risg. Ym mis Mehefin 2016, mabwysiadodd y Bwrdd fformat wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac mae hynny wedi cynorthwyo a chryfhau ei allu i oruchwylio'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei amcanion strategol. Y rhain, yn bennaf, yw'r risgiau hynny sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp a'r rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan.

Mae risgiau corfforaethol wedi'u hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn ac maent wedi cael eu trafod hefyd yn y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyfrifoldeb rheoli yw lliniaru risg ac roedd pob Cyfarwyddwr / Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Roedd risgiau Grŵp yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch-dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Risg y Grwpiau ac yn cael eu llywio gan gofrestrau risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni ac ar lefel adrannol.

## Cyfarwyddyd Gweinidogol

Mae fy atebolrwydd yn ei gwneud yn ofynnol imi sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Os wyf fi, neu fy swyddogion, yn cael ein cyfarwyddo i gymryd cam gweithredu arbennig a ninnau o'r farn nad yw'n bodloni'r safon hon, disgwylir imi hysbysu'r  Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog perthnasol ac, os oes angen, i ofyn am eu cyfarwyddyd ffurfiol i barhau â'r cam gweithredu hwnnw. Yn ystod y cyfnod y cyfrifon hyn a'u llofnodi, nid oes unrhyw Gyfarwyddydau Gweinidogol wedi'u cyhoeddi gan Ysgrifenyddion Cabinet Cymru na Gweinidogion Cymru.

### Casgliad

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y sefydliad am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi gan fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant ac rwyf yn fodlon bod y sefydliad wedi cynnal system gadarn o reolaeth fewnol yn ystod yr amser hwn, a bod camau'n cael eu cymryd i wella rheolaethau mewnol ac i fynd i'r afael â gwendidau lle maent wedi'u nodi.

**Shan Morgan**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
Dyddiad: 2 Awst 2017

# Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth 2016-17

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Caiff taliadau cydnabyddiaeth uwch-weision sifil eu gosod ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig am daliadau cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori ar dâl a phensiynau Gweinidogion lle caiff tâl ei bennu gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu yn www.ome.uk.com

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn: www.civilservicecommission.org.uk

## Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Bolisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth swyddi uwch a thaliadau cydnabyddiaeth y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf. Mae hefyd yn trafod:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian;
b) nifer y swyddi uwch o fewn y corff sydd â phecyn tâl o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000;
c) y ffordd o reoli talent mewnol;
d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad;
e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai;
f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf; a
g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellid eu hamrywio.

## Taliadau cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r rheolwyr ar y lefel uchaf (h.y. aelodau'r Bwrdd).

## Taliadau cydnabyddiaeth

Caiff taliadau cydnabyddiaeth y Prif Weinidog a'i dîm yn y Cabinet ac aelodau'r Bwrdd, a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, eu nodi isod. Caiff y costau eu hadlewyrchu yng nghyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach na chyfrifon Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau'r Cynulliad, sef £64,000 (2015-16: £54,391). Ni chaiff buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad eu cynnwys yn y tabl isod. Ar ôl gadael y Cynulliad, derbyniodd tri gweinidog Grant Ymaddasu hefyd fel y'i diffinnir yn Adran 9.3 o ddogfen 'Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad Mai 2015' fel a ganlyn: Leighton Andrews - £56,175; Huw Lewis - £51,824; Edwina Hart - £64,878.

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth

| Gweinidogion | Cyflog 2016-17 £ | Cyflog 2015-16 £ | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[1] 2016-17 £ | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[1] 2015-16 £ | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2016-17 £ | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2015-16 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones** Prif Weinidog Cymru | 139,319 | 132,965 | 146,000 | 59,000 | 285,000 | 192,000 |
| **Mark Drakeford** Ysgrifennydd Cabinet | 99,531 | 95,149 | 69,000 | 40,000 | 169,000 | 135,000 |
| **Vaughan Gething** Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru hyd at 19/05/16 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/16 | 97,503 | 80,027 | 66,000 | 35,000 | 164,000 | 115,000 |
| **Lesley Griffiths** Ysgrifennydd Cabinet | 99,531 | 95,149 | 99,000 | 42,000 | 199,000 | 137,000 |
| **Jane Hutt** Un o Weinidogion Cymru hyd at 19/05/16 ac yna Arweinydd y Tŷ o 20/05/16 | 99,531 | 95,149 | 179,000 | 47,000 | 279,000 | 142,000 |
| **Carl Sargeant** Ysgrifennydd Cabinet | 99,531 | 95,149 | 101,000 | 42,000 | 201,000 | 137,000 |
| **Ken Skates** Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru hyd at 19/05/16 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/16 | 97,503 | 80,027 | 42,000 | 28,000 | 140,000 | 108,000 |
| **Kirsty Williams** Ysgrifennydd Cabinet (o 20/05/2016) | 86,559 | - | 88,000 | - | 175,000 | - |
| **Mick Antoniw** Cwnsler Cyffredinol (o 29/06/2016) | 75,556 | - | 74,000 | - | 150,000 | - |
| **Rebecca Evans** Un o Weinidogion Cymru | 84,519 | 80,027 | 52,000 | 33,000 | 137,000 | 113,000 |
| **Julie James** Un o Weinidogion Cymru | 84,519 | 80,027 | 51,000 | 33,000 | 136,000 | 113,000 |
| **Alun Davies** Un o Weinidogion Cymru (o 20/05/2016) | 73,575 | - | 57,000 | - | 131,000 | - |
| **Leighton Andrews** Un o Weinidogion Cymru (hyd at 06/05/2016) | 9,305 | 95,149 | 3,000 | 44,000 | 12,000 | 139,000 |
| **Edwina Hart MBE CStJ** Un o Weinidogion Cymru (hyd at 04/05/2016) | 4,590 | 95,149 | 1,000 | 46,000 | 6,000 | 141,000 |
| **Huw Lewis** Un o Weinidogion Cymru (hyd at 04/05/2016) | 4,590 | 95,149 | 1,000 | 44,000 | 6,000 | 139,000 |
| **Theodore Huckle** Cwnsler Cyffredinol (hyd at 18/05/2016) | 12,818 | 96,340 | 5,000 | 40,000 | 18,000 | 136,000 |

1 Caiff buddion pensiwn eu cyfrifo yn ôl fformiwla sy'n gallu arwain at aflunio o fewn blwyddyn, lle mae codiad cyflog yn arwain at hawliau cynyddol o ran y pensiynau a dderbynnir. Yn y blynyddoedd hyn, yn ôl y fformiwla, mae angen i'r hawliad pensiwn gael ei luosi gyda ffactor o 20, sy'n hollol wahanol i'r hawliad pensiwn gwirioneddol. Mae'r ffigurau CETV isod yn adlewyrchu'r buddion hyn yn fwy manwl-gywir.

| Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar yr oedran pensiwn fel y mae ar 31/03/17 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar yr oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/03/17 £000 | CETV ar 31/03/16 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones** Prif Weinidog Cymru | 50-55 | 7.5-10 | 603 | 495 | 73 |
| **Mark Drakeford** Ysgrifennydd Cabinet | 10-15 | 2.5-5 | 241 | 167 | 56 |
| **Vaughan Gething** Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru hyd at 19/05/16 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/16 | 15-20 | 2.5-5 | 177 | 136 | 25 |
| **Lesley Griffiths** Ysgrifennydd Cabinet | 25-30 | 5-7.5 | 414 | 325 | 65 |
| **Jane Hutt** Un o Weinidogion Cymru hyd at 19/05/16 ac yna Arweinydd y Tŷ o 20/05/16 | 55-60 | 7.5-10 | 967 | 815 | 152 |
| **Carl Sargeant** Ysgrifennydd Cabinet | 30-35 | 5-7.5 | 324 | 256 | 47 |
| **Ken Skates** Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru hyd at 19/05/16 ac yna Ysgrifennydd Cabinet o 20/05/16 | 5-10 | 2.5-5 | 77 | 54 | 11 |
| **Kirsty Williams** Ysgrifennydd Cabinet (o 20/05/2016) | 30-35 | 2.5-5 | 297 | 240 | 37 |
| **Mick Antoniw** Cwnsler Cyffredinol (o 29/06/2016) | 20-25 | 2.5-5 | 392 | 310 | 61 |
| **Rebecca Evans** Un o Weinidogion Cymru | 10-15 | 2.5-5 | 95 | 68 | 15 |
| **Julie James** Un o Weinidogion Cymru | 10-15 | 2.5-5 | 168 | 119 | 35 |
| **Alun Davies** Un o Weinidogion Cymru (o 20/05/2016) | 15-20 | 2.5-5 | 227 | 181 | 31 |
| **Leighton Andrews** Un o Weinidogion Cymru (hyd at 06/05/2016) | 35-40 | 0-2.5 | 564 | 560 | 2 |
| **Edwina Hart MBE CStJ** Un o Weinidogion Cymru (hyd at 04/05/2016) | 40-45 | 0-2.5 | 658 | 635 | 0.5 |
| **Huw Lewis** Un o Weinidogion Cymru (hyd at 04/05/2016) | 30-35 | 0-2.5 | 388 | 387 | 0.4 |
| **Theodore Huckle** Cwnsler Cyffredinol (hyd at 18/05/2016) | 10-15 | 0-2.5 | 148 | 144 | 3 |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn cynnig buddion i Aelodau'r Cynulliad a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod Cynulliad yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Cynulliad oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig, mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa newydd ym mis Mai 2016. Mae aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio, ac mae eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn cyfrannu 15.6% o gyflogau cyfanredol Aelodau. Mae aelodau nad ydynt yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio yn talu cyfraniadau ar raddfa o 10.5%. Mae'r aelodau hynny sy'n cael eu diogelu yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6% neu 10% yn dibynnu ar p'un a ydynt yn cronni buddion ar sail croniad 50fed neu 40fed yn ôl eu trefn.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth. Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau (fel y nodir mewn cyfrifon blaenorol) yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r system a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad i hyn, gall y ffigurau gael eu dylanwadu gan ffactorau eraill fel unigolyn yn penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan, ac felly nid ydynt bob tro yn cynrychioli symiau gwirioneddol y pensiwn a dalwyd neu a enillwyd gan unigolyn mewn blwyddyn. Er hynny, mae'r system hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

## Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

| Uwch-swyddogion | Cyflog 2016-17 £000 | Cyflog 2015-16 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2016-17 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2015-16 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2016-17 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2015-16 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan** Ysgrifennydd Parhaol (o 06/02/2017) | 20-25 (cyfwerth â blwyddyn lawn 155-160) | - | 85-90 | - | 110-115 | - |
| **Syr Derek Jones KCB** Ysgrifennydd Parhaol (hyd at 03/02/2017)[1] | 135-140 (cyfwerth â blwyddyn lawn 165-170) | 160-165 | 25-30 | 50-55 | 165-170 | 215-220 |
| **Andrew Goodall**[2] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 195-200 | 195-200 | * | * | 195-200 | 195-200 |
| **Owen Evans** Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol | 140-145 | 135-140 | 50-55 | 50-55 | 195-200 | 185-190 |
| **James Price** Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol | 140-145 | 135-140 | 80-85 | 60-65 | 225-230 | 195-200 |
| **David Richards** Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 100-105 | 100-105 | 10-15 | 10-15 | 110-115 | 110-115 |
| **Jeff Godfrey** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 105-110 | 105-110 | 10-15 | 40-45 | 120-125 | 150-155 |
| **Natalie Pearson** Pennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu (o 01/09/2015) | 75-80 | 45-50 (cyfwerth â blwyddyn lawn 75-80) | 10-15 | 15-20 | 85-90 | 60-65 |
| **Gillian Baranski** Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (01/09/2015) | 105-110 (cyfwerth â blwyddyn lawn 115-120) | 55-60 (cyfwerth â blwyddyn lawn 95-100) | 55-60 | 5-10 | 165-170 | 65-70 |
| **Sioned Evans** Cadeirydd y Grŵp Gweithrediadau (o 01/12/2015) | 75-80 | 25-30 (cyfwerth â blwyddyn lawn 75-80) | 25-30 | 10-15 | 100-105 | 35-40 |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (o 01/09/2015) | 90-95 | 50-55 (cyfwerth â blwyddyn lawn 90-95) | 10-15 | 15-20 | 105-110 | 70-75 |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid (o 20/10/2015) | 85-90 | 35-40 (cyfwerth â blwyddyn lawn 85-90) | 60-65 | 50-55 | 145-150 | 90-95 |
| **Elan Closs Stephens** Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| **James Turner** Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| **Syr Adrian Webb**[3] Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 25-30 | - | - | 10-15 | 25-30 |
| **Ann Keane**[4] Cyfarwyddwr Anweithredol (o 01/01/2016) | 20-25[3] | 5-10 (cyfwerth â blwyddyn lawn 10-15) | - | - | 20-25 | 5-10 |

1 Cafodd Syr Derek Jones ei dalu mewn ffioedd am y mis diwethaf, ac mae hynny wedi lleihau ei gyfrifiad buddion pensiwn ar gyfer 2016-17.
2 Mae Andrew Goodall ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r Budd Pensiwn wedi ei eithrio o'r uchod gan fod y cyfrifiadau rhifyddeg (£210-215,000) 2015-16: £280-285,000 yn seiliedig ar ffigurau nad ydynt yn dynodi'r buddion a dderbyniwyd. Dewisodd beidio ag ymuno â'r cynllun pensiwn yn ystod 2015-16, ond ymunodd â'r cynllun yn ystod 2016-17, ac mae hynny wedi effeithio ar y cyfrifiad hwn, ac yn yr un modd wedi effeithio ar y ffigurau pensiwn cronedig isod, a'r cynnydd ynddynt.
3 Mae cyflog Syr Adrian Webb yn cynnwys ffioedd ychwanegol o £853 a dalwyd ym mis Ebrill 2017 ond a gynhaliwyd yn 2015-16 (2015-16:£13,965) am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru.
4 Mae cyflog Ann Keane yn cynnwys ffioedd ychwanegol o £8,629 (2015-16:£0) am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru.

| Uwch-swyddogion | Pensiwn a gronnir ar oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/17 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/03/17 £000 | CETV ar 31/03/16 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan** Ysgrifennydd Parhaol (o 06/02/2017) | 70-75 a chyfandaliad o 120-125 | 2.5-5 a chyfandaliad o 5-7.5 | 1,492 | 1,434 | 83 |
| **Syr Derek Jones KCB** Ysgrifennydd Parhaol (hyd at 03/02/2017)[1] | 80-85 a chyfandaliad o 240-245 | 0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 1,725 | 1,714 | 24 |
| **Andrew Goodall** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 45-50 a chyfandaliad o 120-125 | (7.5-10) a chyfandaliad o (2.5-5) | 740 | 698 | 42 |
| **Owen Evans** Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol | 15-20 | 2.5-5 | 226 | 186 | 24 |
| **James Price** Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol | 45-50 | 2.5-5 | 588 | 521 | 37 |
| **David Richards** Cyfarwyddwr Llywodraethiant | 45-50 a chyfandaliad o 145-150 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 1,086 | 1,078 | 10 |
| **Jeff Godfrey** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 40-45 a chyfandaliad o 130-135 | 0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 952 | 923 | 12 |
| **Natalie Pearson** Pennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu | 20-25 a chyfandaliad o 70-75 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 479 | 448 | 8 |
| **Gillian Baranski** Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 20-25 | 2.5-5 | 421 | 341 | 59 |
| **Sioned Evans** Cadeirydd y Grŵp Gweithrediadau | 15-20 a chyfandaliad o 45-50 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 304 | 275 | 12 |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 25-30 a chyfandaliad o 75-80 | 0-2.5 a chyfandaliad o 2.5-5 | 520 | 483 | 11 |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid | 30-35 a chyfandaliad o 95-100 | 2.5-5 a chyfandaliad o 7.5-10 | 608 | 532 | 51 |

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun treth y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gytundebol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Caiff unrhyw daliadau a wneir eu talu ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Gwaith Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil yw gweithredu polisi tâl uwch-weision y DU a chymeradwyo unrhyw ddyraniadau, asesu'r cyfraniadau perthnasol a pherfformiad Uwch-weision Sifil yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, un Cyfarwyddwr Cyffredinol a thri Cyfarwyddwr anweithredol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Aseswyd nad oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n derbyn y tâl uchaf yn eu sefydliad a thaliad cydnabyddiaeth canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Roedd y cyfarwyddwr a oedd yn derbyn y tâl uchaf yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2016-17 yn derbyn taliad cydnabyddiaeth wedi'i fandio o £195,000-200,000 (2015-16: £195,000-200,000). Roedd hyn 5.7 gwaith (2015-16: 5.8) yn fwy na thâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, a oedd yn £34,750 (2015-16: £34,750). Yn seiliedig ar dâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio yr Ysgrifennydd Parhaol, mae'r gymhareb yn 4.6 (2015-16: 4.7). Yn 2016-17 a 2015-16, ni dderbyniodd unrhyw weithiwr daliad cydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a oedd yn derbyn y tâl uchaf. Roedd y taliadau cydnabyddiaeth yn amrywio o £17,200 i £199,000 (2015-16: £17,200 i £199,000).

Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gydgrynhoi a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn gan gyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) oedd:

| | Staff a gyflogwyd yn barhaol | Staff Eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2016-17 | Cyfanswm 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **74,189** | **1,982** | **7** | **76,178** | **74,185** |
| O'r rhain: | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 4,978 | 126 | 7 | 5,111 | 5,293 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 68,446 | 1,856 | - | 70,302 | 68,104 |
| Is-gwmnïau | 765 | - | - | 765 | 788 |
| O gyfanswm Llywodraeth Cymru: | | | | | |
| Cyrff rheoleiddio a chyflawni | 718 | | | | |
| Tribiwnlysoedd | 29 | | | | |

## Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhyw (heb eu harchwilio)

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 60% | 40% |
| Uwch Wasanaeth Sifil | 59% | 41% |
| Pob Staff | 41% | 59% |

## Costau staff

| | Staff a gyflogwyd yn barhaol | Staff Eraill | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 Cyfanswm | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2016 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Cyflogau | 198 | 5 | 203 | 209 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 22 | - | 22 | 18 |
| Costau Pensiwn Eraill | 48 | - | 48 | 49 |
| **Cyfanswm** | **268** | **5** | **273** | **276** |
| Adenillion o secondiadau | (1) | - | (1) | (1) |
| **Costau net staff** | **267** | **5** | **272** | **275** |
| **Cyfunol** | | | | |
| Cyflogau | 2,714 | 157 | 2,871 | 2,760 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 260 | - | 260 | 198 |
| Costau Pensiwn Eraill | 355 | - | 355 | 343 |
| **Cyfanswm** | **3,329** | **157** | **3,486** | **3,301** |
| Adenillon o secondiadau | (1) | - | (1) | (1) |
| **Costau net staff** | **3,328** | **157** | **3,485** | **3,300** |

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau swyddfa breifat. Talwyd cyfanswm o £433,693 (2015-16 - £620,225) i gynghorwyr arbennig ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys pensiwn a chostau nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Caiff cyflogau Gweinidogion Cymru eu talu gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny.

## Pensiynau

Caiff buddion pensiwn y Gwasanaeth Sifil eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill, neu'r cynllun **alpha**. O dan y cynllun hwnnw, darperir buddion ar sail enillion cyfartalog gyrfa, ac mae'r oed pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oed pensiwn yr aelod o dan system bensiwn y wladwriaeth (neu 65 oed, os yw'n uwch). Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran. Mae tair ohonynt yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol yr aelod (**classic**, **premium** neu **classic plus**), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 60. Mae'r adran arall yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan yr aelod (**nuvos**), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu, a chaiff costau'r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion PCSPS a buddion **alpha**, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall yr aelodau sy'n ymuno o 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partnership**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â'u cyflog. Maent yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau o'r cynllun **classic** (ac aelodau o'r cynllun **alpha** a oedd yn aelodau o'r cynllun **classic** yn union cyn ymuno â'r cynllun **alpha**), a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o'r cynllun **premium**, **classic plus**, **nuvos**, a phob aelod arall o'r cynllun **alpha**. Mae buddion yn y cynllun **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â'r tair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae buddion yn y cynllun **premium** yn cronni ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, ni thelir cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun **classic plus** gyda'r buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun **classic** a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun **premium**. Yng nghynllun **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3% o gyflog pensiynadwy aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â

deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun **alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, ond mai 2.32% yw'r gyfradd groniadol. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (trosi) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partnership**. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod), i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes yn rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau'r cynlluniau **classic**, **premium** a **classic plus** yw 60, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau'r cynllun **nuvos**, a naill ai 65 neu eu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth – pa un bynnag sy'n uwch, ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: www.civilservice.gov.uk/my-civil-service/pensions

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd y cynllun gan Actiwari'r Cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2016-17, roedd cyfraniadau cyflogwr o £39,714,603 yn daladwy i'r PCSPS (2015-16: £39,831,454) ar un o bedair cyfradd o 20.0 i 24.5 y cant (2015-16: 20.0 to 24.5) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Caiff cyfraddau'r cyfraniadau eu pennu i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2016-17 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partnership, sef pensiwn cyfranddeiliaid lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £184,495 (2015-16: £165,822) eu talu i un aelod neu ragor o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 o 14.75 y cant o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3 y cant o enillion. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £7,007, 0.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol pe bai gweithiwr yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partnership ar ddyddiad y fantolen (2015-16: dim). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y ddyddiad hwnnw (2015-16: £dim).

Roedd tri unigolyn wedi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £21,125.

Dewisodd nifer bach o gyn-weithwyr Awdurdod Datblygu Cymru gadw'r telerau a'r amodau a'r trefniadau pensiwn a oedd ganddynt. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Caiff asedau'r cynllun eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a chaiff y buddion hyn eu darparu ar sail talu wrth fynd. Caiff manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol eu cynnwys yn eu cyfrifon.

## Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill - pecynnau ymadael

Ni chafwyd unrhyw gynlluniau hyblyg ar gyfer ymddeoliad cynnar, ymddeoliad cynnar cymeradwy nac ymadawiad cynnar yn 2016-17 na 2015-16.

Yn 2016-17, roedd 21(2015-16:42) o weithwyr wedi gadael neu wedi cytuno i adael rhwng 31 Mawrth 2016 a 31 Mawrth 2017. Mae'r taliadau iawndal yn £709,287 (2015-16: £1,830,696). Ar gyfer pob achos, cyfrifir cyfnod ad-dalu, a bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedyn yn ei gymeradwyo.

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun gorfodol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd eu talu gan y cynllun pensiwn ac ni chânt eu cynnwys yn y tabl.

| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost 2016-17 | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| **Band cost y pecyn ymadael** | | | | |
| <£10,000 | - | 1 | 1 | 12 |
| £10,000 - £25,000 | - | 5 | 5 | 6 |
| £25,000 - £50,000 | - | 12 | 12 | 8 |
| £50,000 - £100,000 | - | 3 | 3 | 12 |
| £100,000 - £150,000 | - | - | - | 4 |
| £150,000 - £200,000 | - | - | - | - |
| £200,000+ | - | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | **-** | **21** | **21** | **42** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | **-** | **709,287** | **709,287** | **1,830,696** |

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Mewn rhai achosion, taliadau arian parod yw'r rhain, ond mewn achosion eraill mae costau'n cynnwys pethau fel cael mynediad cynnar at gostau pensiwn, costau pensiwn rhwng dyddiad gadael ac oedran ymddeol y cynllun.

## Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

Parhaodd y lefelau absenoldeb oherwydd salwch i ostwng yn ystod y flwyddyn, ar draws Llywodraeth Cymru, wrth i'r mesurau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol barhau i gael effaith gadarnhaol. Yn ystod 2016-17, cyflwynwyd nifer o fesurau ychwanegol gyda'r nod o gynnal y momentwm hwn, ynghyd â pharhau i gynnal hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol a chyfunol. Yn y flwyddyn hon hefyd, dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu Strategaeth Iechyd a Llesiant newydd i Lywodraeth Cymru, fel bod gennym ffordd fwy penodol o reoli absenoldeb oherwydd salwch a ffordd o gefnogi ac annog staff i ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â'u bod yn gallu.

| Absenoldeb oherwydd Salwch yn Llywodraeth Cymru | 2016-17 | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 17,354 | 18,967 | 20,631 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 22,876 | 23,977 | 23,161 |
| Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis) | 40,230 | 42,944 | 43,792 |
| Cyfanswm blynyddoedd staff | 5,155 | 5,307 | 5,519 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 5,691 | 5,964 | 6,134 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 2,529 | 2,479 | 2,500 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 44% | 42% | 41% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 7.8 | 8.1 | 7.9 |

## Datguddiadau Atebolrwydd

| Datganiad colledion | Ailddosbarthwyd | |
|---|---|---|
| | **2016-17** | **2015-16** |
| Cyfanswm y colledion | 118 | 131 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000) | 2,180 | 6,995 |

| Taliadau Arbennig | Ailddosbarthwyd | |
|---|---|---|
| | **2016-17** | **2015-16** |
| Cyfanswm nifer y Taliadau Arbennig | 8 | 21 |
| Cyfanswm gwerth y Taliadau Arbennig (£000) | 543 | 241 |

Caiff colledion ar gyfer cwmnïau grŵp eraill eu dangos mewn manylder yn eu cyfrifon eu hunain.

# Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

| | Y Gyllideb 2016-17 Gwariant Net £m | Alldro 2016-17 Gwariant Net £m | Alldro o gymharu â'r Amrywiant Cyllidebol £m |
|---|---|---|---|
| **CWMPAS** | | | |
| Iechyd, Llesiant a Chwaraeon | 6,147 | 6,063 | 84 |
| Llywodraeth Leol | 3,342 | 3,340 | 2 |
| Addysg | 2,226 | 2,175 | 51 |
| Yr Economi a'r Seilwaith | 887 | 823 | 64 |
| Cymunedau a Phlant | 768 | 768 | - |
| Yr Amgylchedd a Materion Gwledig | 371 | 370 | 1 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 320 | 307 | 13 |
| | | | |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a gofynion Cyfalaf** | **14,061** | **13,846** | **215** |
| **Incwm** | **2,106** | **1,815** | **291** |
| **Gwariant gros** | **16,167** | **15,661** | **506** |

Mae'r tabl uchod yn dangos fformat newydd y Cwmpas yn dilyn etholiad mis Mai 2016. Dangosir y strwythur Cwmpas blaenorol a oedd yn gymwys yn y flwyddyn ariannol 2015-16 isod:

| | Alldro 2015-16 Gwariant Net £m |
|---|---|
| **CWMPAS** | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,512 |
| Llywodraeth Leol | 3,472 |
| Addysg a Sgiliau | 1,782 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 1,285 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 735 |
| Cyfoeth Naturiol | 394 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 304 |
| | |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a gofynion Cyfalaf** | **13,484** |
| **Incwm** | **1,823** |
| **Gwariant gros** | **15,307** |

## Egluro amrywiannau dros £10m

### Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: £84m

i) Pwynt technegol yn ymwneud â chysondeb: Tanwariant o £92m

Nid yw'r gyllideb sydd wedi'i chynnwys yng Nghynnig yr Ail Gyllideb Atodol 2016-17 (ac a ddefnyddiwyd yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau) yn adlewyrchu'r adnoddau a ddefnyddir gan gyrff y GIG yng Nghymru yn unol â'r cyllidebau a bennir gan Drysorlys ei Mawrhydi a'r rheini a ddefnyddir at ddibenion rheolaeth ariannol o fewn Llywodraeth Cymru, dim ond yr arian parod a delir i'r cyrff hyn. Mae hyn yn creu problem o ran cysondeb, sef £92m yn 2016-17. Mae'r amrywiant yn cynnwys: £29m mewn gwahaniaethau amseru, prosiectau cyfalaf yn bennaf lle cafwyd gwariant ond na chafodd arian parod ei dynnu; a £63m yn adlewyrchu gofynion y byrddau iechyd o ran arian parod. Bydd y mater yn cael ei ddatrys yn helaeth gan ddynodiad cyrff y GIG yng Nghymru a weithredir yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol 2017-18.

ii) Darpariaethau Cronfa Risg y GIG: Gorwariant o £15m

Roedd yr elfen fwyaf yn ymwneud â chyhoeddiad yr Arglwydd Ganghellor o'i bwriad i ddiwygio'r gyfradd ddisgownt ar gyfer anafiadau personol cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan effeithio ar bob setliad hawliadau am esgeulustod clinigol.

iii) Refeniw £7m: tanwariant

Roedd yr Ail Gyllideb Atodol yn cynnwys dyraniad o £7.5m i helpu i fynd i'r afael â gorwariant a ragwelir yn y byrddau iechyd. Fodd bynnag, gan fod eu sefyllfa ariannol wedi gwella, nid oedd angen hyn ar y rhan fwyaf.

### Addysg - tanwariant o £51m

Roedd yr amrywiant yn gysylltiedig â'r gyllideb benthyciadau i fyfyrwyr sy'n seiliedig ar alw ac yn anodd ei ragweld. Roedd amhariad blynyddol (yn y gwerth disgwyliedig) y llyfr benthyciadau a gyfrifwyd drwy fodelu ystadegol yn £28m yn llai nag a gyllidebwyd ar ei gyfer. Yn ogystal â hyn, roedd gwerth y benthyciadau i fyfyrwyr a'r ad-daliadau a wnaed £23m yn llai na'r disgwyl.

### Yr Economi a'r Seilwaith - tanwariant o £64m

Roedd y rhan fwyaf o'r amrywiant yn ymwneud â gwariant y tu allan i reolaethau rheoli arferol fel darpariaethau ac amhariadau asedau ar ôl i'r portffolio eiddo buddsoddi gael ei brisio'n annibynnol. Gwelwyd hefyd newid yn y modelau prisio ffyrdd ar ôl defnyddio algorithm newydd a oedd yn effeithio ar oes ddefnyddiol ffyrdd ac felly'r gofyniad o ran y gost dibrisiant flynyddol.

### Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - tanwariant o £13m

Roedd tair prif elfen. Gwelwyd tanwariant o £4m yn y Gronfa Buddsoddi i Arbed. Gwelwyd tanwariant o £3m yn gysylltiedig ag amhariad a chostau dibrisiant ar ystad Llywodraeth Cymru. Yn olaf, gwelwyd tanwariant o £6m yn gysylltiedig â thaliadau pensiwn i staff yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n dibynnu ar brisiadau actiwaraidd blynyddol, ac felly mae'n anodd eu rhagweld.

## Gofyniad Arian Parod Net

| | Alldro 2016-17 £m | Alldro 2015-16 £m |
|---|---|---|
| **Awdurdodwyd i'w gyhoeddi o Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,754** | 13,584 |
| Cyllid a dynnir i lawr | **(13,507)** | (13,471) |
| Cyllid heb ei dynnu i lawr | **247** | 113 |

# NODIADAU

## Cysoni'r alldro a CSoCNE

| | Alldro 2016-17 £m | Alldro 2015-16 £m |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **13,846** | 13,484 |
| Llai: Cyfalaf, benthyciadau ac addasiadau | **(844)** | (849) |
| **Gwariant fesul CSoCNE** | **13,002** | 12,635 |

## Cysoni adnoddau i ofynion arian parod

| | Y Gyllideb 2016-17 | Alldro 2016-17 | Alldro o gymharu â'r Gyllideb | Alldro 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| **Alldro Adnoddau Net** | **14,061** | **13,846** | **215** | **13,484** |
| Dibrisiant | 206 | 257 | (51) | (223) |
| Amhariadau | (292) | (321) | 29 | 160 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | (203) | (194) | (9) | (26) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio | (18) | (76) | 58 | 12 |
| Arall | - | 43 | (43) | 72 |
| **Gofyniad arian parod net** | **13,754** | **13,555** | **199** | **13,479** |

**Shan Morgan**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
Dyddiad: 2 Awst 2017

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Cyfunol o Safle Ariannol, Datganiad Cyfunol o Lif Arian, Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad o Adnoddau Alldro, Datganiad Colledion a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a Staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio.

## Priod gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM yn sgil y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth ddigonol am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol ar gyfer amgylchiadau Llywodraeth Cymru ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Llywodraeth Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i mi gasglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant wedi'u cymhwyso i ddibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol sy'n cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal â hyn, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd er mwyn nodi agweddau perthnasol sy'n anghyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf oblygiadau hynny i'm tystysgrif a'm hadroddiad.

## Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Llywodraeth Cymru a'r Grŵp 31 Mawrth 2017 a'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn honno a ddaeth i ben; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r Datganiad o Adnoddau Alldro, Datganiad Colledion a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth a gafodd ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt ar sail eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion sy'n dilyn,
y byddwn yn adrodd arnynt petawn i o'r farn:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nad yw'r Datganiad o Adnoddau Alldro, Datganiad Colledion a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad yw'r wybodaeth a fanylwyd gan Drysorlys EM ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y datganiadau ariannol hyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 Awst 2017

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Datganiadau Ariannol

## Datganiad wedi'i gydgrynhoi o Wariant Net Cynhwysfawr
## Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017

| | | 2016-17 | | Ailddatganwyd 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | | (33) | (49) | (37) | (51) |
| Incwm gweithredol arall | | (1,655) | (1,964) | (1,663) | (1,930) |
| **Cyfanswm incwm gweithredol** | **2** | **(1,688)** | **(2,013)** | **(1,700)** | **(1,981)** |
| Costau staff | 3 | 272 | 3,485 | 275 | 3,300 |
| Gwariant | 3 | 14,156 | 11,159 | 13,957 | 11,175 |
| Cost darpariaeth | 3 | 262 | 330 | 103 | 146 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **14,690** | **14,974** | **14,335** | **14,621** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **13,002** | **12,961** | **12,635** | **12,640** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | | | |
| Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredol net: | | | | | |
| Elw/colled net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | (548) | (560) | 407 | 341 |
| Elw/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | | (9) | (24) | (11) | (20) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **12,445** | **12,377** | **13,031** | **12,961** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 62 i 92 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2017

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2017 | | Ailddatganwyd Ar 31 Mawrth 2016 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 16,265 | 19,168 | 15,233 | 18,087 |
| Asedau nad ydynt yn ddiriaethol | 5 | 14 | 25 | 16 | 25 |
| Asedau ariannol | 7 | 3,635 | 3,218 | 3,414 | 3,028 |
| Masnach a symiau eraill i'w derbyn | 9 | 15 | 301 | 14 | 233 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **19,929** | **22,712** | **18,677** | **21,373** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel 'mewn llaw i'w gwerthu' | | - | 4 | - | 3 |
| Addasiad arall | - | - | (1) | (1) |
| Llai symudiad mewn symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a balansau costau anweithredol eraill | (3) | (3) | 122 | 122 |
| | **11** | **(97)** | **(77)** | **(61)** |

## 16. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru'n cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Awdurdodau Lleol Cymru, cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodiadau gyda chyrff eraill y Llywodraeth a chyrff y Llywodraeth Ganolog, yn bennaf Swyddfa Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi cynnal unrhyw drafodiadau sylweddol â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae **Lesley Griffiths** (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig) a **Ken Skates** (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith) yn Is-lywyddion Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a gafodd £4,037 yn 2016-17.

Mae gŵr **Kirsty Williams** (Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) yn bartner mewn busnes ffermio a gafodd £65,851 yn 2016-17 o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE a chynllun Glastir Llywodraeth Cymru ar gyfer tir comin.

Mae **James Price**, **Peter Kennedy** a **Sioned Evans** (aelodau'r Bwrdd) hefyd ar fwrdd Trafnidiaeth Cymru a gafodd gyllid grant o £8,889,957.

Mae gŵr **Gillian Baranski** (Aelod o'r Bwrdd) yn bartner yng nghwmni Cyfreithiol Geldards LLP a gystadlodd am gontract caffael am Wasanaethau Cyfreithiol gyda Llywodraeth Cymru. Talwyd £2,178,489 i'r cwmni yn 2016-17 am y Gwasanaethau Cyfreithiol hyn.

**Syr Adrian Webb** (cyfarwyddwr anweithredol) yw Cadeirydd y Gronfa Loteri Fawr, a gafodd £2,766,058 o arian oddi wrth raglenni cymunedol yn 2016-17.

Mae **James Turner** (cyfarwyddwr anweithredol) hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Aber Instruments a gafodd gyllid o £2,079 gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17.

Datgelir trafodiadau partïon cysylltiedig Byrddau Iechyd Lleol Cymru ac is-gyrff eraill yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

### 16.1 Canlyniadau cwmnïau cyfunol o dan berchnogaeth lwyr

| | Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 | | Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| | Elw /(Colled) £ | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £ | Elw /(Colled) £ | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £ |
| Cyllid Cymru CCC (i) | 13,374,878 | 125,561,047 | (1,336,066) | 105,565,806 |
| - Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (LLP) | 5,145,738 | 35,165,845 | (199,315) | 30,020,116 |
| WGC Holdco Limited | Dim | 55,300,000 | Dim | 55,300,000 |
| Dewis Gyrfa Career Choices Cyfyngedig | (1,852,000) | (27,679,000) | (1,256,000) | (14,562,000) |

(i) Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'i ran-dalu. Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft, gan nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r ffigurau a ddatgelwyd.

### 16.2 Ymgymeriadau Cysylltiol

Mae gan Lywodraeth Cymru fuddiant ym Mhartneriaeth Ddiwydiannol Cymru LLP, ymgymeriad cysylltiol; heb unrhyw ddylanwad sylweddol (49%). Diddymwyd y cwmni ar 20/12/2016.

### 16.3 Mân is-gyrff a buddiannau eraill

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o fân is-gyrff na ddatgelir unrhyw ganlyniadau masnachu ar eu cyfer yn y cyfrifon cyfunol hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- DCFW Limited – Design Commission for Wales / Comisiwn Dylunio Cymru
- Hybu Cig Cymru Cyf / Meat Promotion Wales Limited
- Sector Development Wales Partnership Limited
- Life Sciences Hub Wales Limited (Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru)
- Welsh Development Management Limited
- International Business Wales Limited
- Innovation Point Limited (Yr Arloesfa)
- Trafnidiaeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n berchen ar 50% o gyfalaf cyfrannau International Convention Centre Wales Limited, gyda'r 50% arall yn cael ei ddal gan y Celtic Manor Resort Limited.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr – un gyfran gyda gwerth enwol o £1. Delir perchnogaeth ar y cyd ag Adran Addysg Lloegr, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% i Lywodraeth Cymru yn y cwmni.

Airbus Group Endeavr Wales (gynt EADS Foundation Wales) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd (gynt Cassidian Holdings Limited) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir elusennau Bwrdd Iechyd Lleol yn y cyfrifon cyfunol gan nad yw'r gweddillion yn sylweddol.

## 17. Ailddatgan Gwariant Net Cynhwysfawr a Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, 2015-16

### Newidiadau mewn Polisi Cyfrifyddu

Ymhellach i ganllawiau ar geisiadau gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar a gyhoeddwyd yn 2014 mae'r driniaeth o wariant cynnal a chadw sy'n cynnal potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd wedi'i chyfalafu. Oherwydd hyn bu rhaid ailddatgan ffigurau 2015-16. Nid yw hyn wedi arwain at unrhyw wahaniaethau sylweddol net i'r symiau a'r gweddillion a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

### Addasiadau cyfnod blaenorol eraill

Mae Dyledwyr Masnach 2015-16 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r dyledion a oedd yn ddyledus ers mwy nag un flwyddyn. Mae amseriad darpariaethau ar gyfer Cronfa Risg Cymru wedi'i ailddatgan ar gyfer 2015-16 gan ddisodli ffigurau drafft â ffigurau terfynol ac i adlewyrchu darpariaethau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn. Nid yw hyn wedi arwain at unrhyw wahaniaethau sylweddol net i'r symiau a'r gweddillion a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

| | Gweddill ar 31 Mawrth 2016 yn unol â chyfrifon 2015-16 wedi'u llofnodi | Newidiadau mewn Polisi Cyfrifyddu | Addasiadau cyfnod blaenorol eraill | Balans wedi'i ailddatgan ar 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|---|
| Craidd Llywodraeth Cymu | £m | £m | £m | £m |
| Datganiad wedi'i gydgrynhoi o Wariant Net Cynhwysfawr | | | | |
| Nwyddau a Gwasanaethau | 369 | (60) | - | 309 |
| Dibrisiant | 159 | 60 | - | 219 |
| Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o'r Sefyllfa Ariannol Gynhwysfawr | | | | |
| Asedau'r Rhwydwaith ar gost: Ychwanegiadau | - | 60 | - | 60 |
| Asedau'r Rhwydwaith ar gost: Ailbrisiadau | (467) | (60) | - | (527) |
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn: Masnach a symiau eraill i'w derbyn | 175 | - | (13) | 162 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn: Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | - | - | 14 | 14 |
| Rhwymedigaethau cyfredol: darpariaethau | - | - | (231) | (231) |
| Rhwymedigaethau anghyfredol: darpariaethau | (733) | - | 231 | (502) |

| Craidd Llywodraeth Cymu | £m | £m | £m | £m |
|---|---|---|---|---|
| Datganiad wedi'i gydgrynhoi o Wariant Net Cynhwysfawr | | | | |
| Nwyddau a Gwasanaethau | 3,557 | (60) | - | 3,497 |
| Dibrisiant | 298 | 60 | - | 358 |
| Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o'r Sefyllfa Ariannol Gynhwysfawr | | | | |
| Asedau'r Rhwydwaith ar gost: Ychwanegiadau | - | 60 | - | 60 |
| Asedau'r Rhwydwaith ar gost: Ailbrisiadau | (467) | (60) | - | (527) |
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn: | | | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 243 | - | (13) | 230 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn: | | | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | - | - | 13 | 13 |
| Rhwymedigaethau cyfredol: darpariaethau | - | - | (244) | (244) |
| Rhwymedigaethau anghyfredol: darpariaethau | (758) | - | 244 | (514) |

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Eiddo, Offer a Chyfarpar

### Tir ac adeiladau (gan gynnwys anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Mae eiddo ar brydles, lle'r oedd y les wreiddiol am lai na chan mlynedd, yn cael ei drin fel cost refeniw. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol a thir ac adeiladau lesddaliadol, lle'r oedd y les wreiddiol am fwy na chan mlynedd, wedi'u hailddatgan yn ôl y gost gyfredol gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu yn flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd eraill am brisiadau nad ydynt yn flynyddol. Yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a ddelir ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio. Codwyd y mynegeion o fynegai misol diweddaraf y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer Canolbarth Lloegr a Chymru.

### Asedau'r Rhwydwaith

Mae'r rhwydwaith ffyrdd wedi'i brisio yn ôl ei gost adnewyddu wedi'i dibrisio yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau'r farchnad ar gael ar eu cyfer. Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll proffesiynol. Y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw Systemau Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS), a redir gan ymgynghorwyr allanol W.S. Atkins. Mae syrfewyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad llawn o'r rhwydwaith ar adegau heb fod yn fwy na phum mlynedd. Cynhaliwyd y prisiad hwn yn 2014-15. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol Asedau'r Rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon amrywiol).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond mae strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, yn cael eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Mae cyfathrebu'n cael ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgategoreiddio o Asedau o dan Adeiladwaith pan fydd y manylion strwythurol wedi'u darparu gan yr Awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr awdurdod lleol neu oddi yno fel 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr awdurdodau lleol neu iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau eraill o'r Llywodraeth neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a

strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael eu prosesu trwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir yma yw:

| | |
|---|---|
| Palmant Ffordd a Strwythurau | Mynegai Baxter |
| Cyfathrebu | Mynegai Baxter |
| Tir | Cynhyrchir mynegeion tir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio |

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Technoleg Gwybodaeth a Gosodiadau a Ffitiadau**

Mae technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau (sy'n cynnwys cerbydau, offer a chyfarpar), ar gost hanesyddol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am grocbris y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw dechnegau  amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

**Asedau Treftadaeth**

Mae Llywodraeth Cymru'n dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy neu ni ellid eu sicrhau ond am grocbris. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

## A.2 Dibrisiant

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

- tâl cynnal a chadw blynyddol;
- amcangyfrif o ddirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn asedau nad ydynt yn gyfredol uchod); a
- dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd trwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd trwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Mae'r elfennau Strwythurau a Chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac eiddo arall, asedau eiddo, offer a chyfarpar trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

Dangosir oes yn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y rhwydwaith | 20 i 50 o flynyddoedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith | 20 to 120 o flynyddoedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaith | 15 o flynyddoedd |
| Tir ac adeiladau lesddaliadol | Gweddill oes |
| Anheddau | Gweddill oes |

| | |
|---|---|
| adeiladau rhydd-ddaliadol | hyd at 60 o flynyddoedd |
| Technoleg Gwybodaeth | 3 i 10 o flynyddoedd |
| Asedau meddalwedd anniriaethol | 2 i 10 o flynyddoedd |
| Gosodiadau a ffitiadau | 3 i 20 o flynyddoedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau o dan adeiladwaith yn cael eu dibrisio.

Mae lleihadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr y cyfnod y maent yn cael eu tynnu.

## A.3 Ymchwil a Datblygu

Mae gwariant ymchwil a datblygu yn cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'n cael ei dynnu, ac eithrio lle mae'n cyfeirio at brosiect pendant a lle gellir barnu bod y buddion yn sicr. Mae'r gwariant sy'n cael ei ohirio'n cael ei gyfyngu i werth buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ac mae'n cael ei amorteiddio trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir elwa ar y prosiect.

## A.4 Asedau Ariannol

### Benthyciadau a Chyfalaf Difidend Cyhoeddus

Dangosir benthyciadau a Chyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC) a roddir i gyrff cyhoeddus y tu allan i'r ffin gyfunol ar gost hanesyddol, llai unrhyw leihad angenrheidiol i ddangos gwerth teg. Dangosir buddsoddiadau eraill, ar ffurf cyd-fentrau ar werth teg.

### Benthyciadau i Fyfyrwyr

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau myfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr. Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Yn achos ad-daliadau a wneir trwy SLC, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir trwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEM i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddiddymiadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Ystyrir bod y gwerth cario yn frasamcan rhesymol o werth teg benthyciadau myfyrwyr, yn niffyg marchnad fywiog, tueddiadau amlwg yn y farchnad neu drafodiadau hyd braich tebyg eraill. Defnyddir y dechneg brisio hon i amcangyfrif gwerth presennol llifoedd arian parod yn y dyfodol ac amcangyfrif o symiau na ellir eu hadfer oherwydd penderfyniadau polisi.

Defnyddir model ystadegol i amcangyfrif cyfanswm gwerth y benthyciadau a roddir ac ad-daliadau gan raddedigion yn y dyfodol. Mae hyn yn gwneud nifer o ragdybiaethau gan gynnwys swm y benthyciadau a godir, lefelau enillion graddedigion o Gymru, cyfraddau llog, pryd y dechreuir ad-dalu benthyciadau, swm y benthyciadau y bydd angen eu dileu (oherwydd canslo rhannol a throthwyon ad-dalu) a gwerth ad-daliadau a wneir yn y dyfodol yn arian heddiw (gwerth presennol net). Fel ased sylweddol, gall newidiadau yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelu gael effaith fawr ar gyllid y benthyciad a'r addasiadau heb fod yn arian parod wrth brisio'r llyfr benthyciadau.

Mae'r model yn dal data am nodweddion demograffig ac ymddygiadol myfyrwyr er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu eu benthyciadau. Mae'r model yn dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, ac yn benodol ar enillion benthycwyr. Model hirdymor yw hwn, ond mae'n defnyddio rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Mae'r prisiad o'r llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn

ansicr gan ei fod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf yn ogystal â nifer o ragdybiaethau cymhleth eraill, i ryw bedwar miliwn o fenthycwyr. Ceir gwybodaeth bellach am y rhagdybiaethau craidd a model wedi'i symleiddio ar wefan yr Adran Addysg.

Mae'r model rhagamcanu i Gymru'n cynnwys yr un prif ragdybiaethau â Lloegr. Er hynny, ceir nifer o ddiwygiadau Cymru'n unig a wneir i adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau sy'n unigryw i Gymru. Mae'r prif wahaniaethau fel a ganlyn:

- Cynnwys data am fenthycwyr o Gymru gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr
- Cynnwys amcanestyniadau o nifer y myfyrwyr o Gymru
- Cynnwys gwybodaeth am fenthyciadau i fyfyrwyr o Gymru; a
- Dileu'r cynllun benthyciadau i fyfyrwyr yn rhannol.

Bob blwyddyn mae gwerth cario benthyciadau AU yn y cyfrifon yn cael ei gymharu â'r allbynnau diweddaraf o fodel ad-dalu Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n cael ei ail-redeg gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau presennol. Os bydd gwahaniaeth sylweddol, cynhelir adolygiad i benderfynu'r rhesymau dros yr amrywiant. Ni fyddai'r gwerth cario yn cael ei addasu ond os oes digon o dystiolaeth i awgrymu bod y gwahaniaeth yn golygu gostyngiad parhaol yn y gwerth cario.

**Asedau anghyfredol**

Dynodir asedau nad ydynt yn gyfredol fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu os caiff eu swm cario ei adfer trwy ei werthu yn hytrach na defnydd parhaus. Bernir bod yr amod hwn yn cael ei fodloni yn unig pan fydd y gwerthiant yn debygol iawn a bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol. Rhaid i'r rheolwyr ymrwymo i'r gwerthiant a dylid disgwyl cwblhau hyn cyn pen un flwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Mae asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n cael eu dal i'w gwerthu'n cael eu mesur ar lefel isaf swm cario a gwerth teg, llai costau i werthu.

## A.5 Stocrestrau

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'u hangen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddiddymu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i SOCNE. Mae gwrthdroi sylweddol yn achos lleihadau blynyddoedd blaenorol yn cael eu hysgrifennu yn ôl i SOCNE lle ceir tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestrau eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost adnewyddu a gwerth gwireddadwy net. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwahaniaeth o sylwedd rhwng y gost adnewyddu a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.6 Incwm gweithredol

Mae Incwm gweithredol yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cysylltiedig.

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

Mae refeniw iechyd yn cynnwys Cyfraniadau Ariannu Iechyd sy'n daladwy gan Gyllid a Thollau

Ei Mawrhydi sy'n cael eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Gwladol. Nid oedd y gwaith o archwilio'r trafodiadau hyn wedi cael ei gwblhau erbyn i'r cyfrifon hyn gael eu cynhyrchu. Caiff unrhyw addasiadau sy'n deillio o'r archwiliad eu gwneud felly mewn cyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol. Nid yw'r rhain yn debygol o fod yn sylweddol.

## A.7 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru'n adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.8 Pensiynau

Caiff y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru eu cynnwys yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion trwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd trwy gronfeydd yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai o gyn-staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Cyllid Cymru CCC a staff Dewis Gyrfa yn cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr.

Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at; Yr Adran Iechyd ac Ymddiriedolaeth Les y Nyrsys; a'r West Yorkshire Pension Scheme  a weinyddir gan City of Bradford Metropolitan District Council.

Mae cyflogeion Byrddau Iechyd Lleol yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno BILl.

## A.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i gyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i rhwymedigaeth ymlaen llaw trwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn y Bank of England i gredydu Pleidlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion BILI sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-weithwyr yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru'n talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

## A.10 Lesoedd gweithredol

Codir gwariant ar lesoedd gweithredol heb eu cyfalafu, gan gynnwys tir ac adeiladau, ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef.

## A.11 Grantiau

Cofnodir grantiau sy'n daladwy fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgaredd sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd.

## A.12 Y Fenter Cyllid Preifat / Trafodiadau'r Sector Cyhoeddus neu Breifat

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi penderfynu y bydd rhaid i gyrff y Llywodraeth gyfrif am gynlluniau PFI seilwaith lle mae corff y Llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r BILI yn cydnabod, felly, ased PFI fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdano. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredol.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen;

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a dderbynnir;

b) Taliad am yr ased PFI, gan gynnwys costau cyllid; a

c) Taliad am ddisodli'r ased yn ystod y contract 'adnewyddu cylch oes'.

Cofnodir gwerth teg gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni.

Cydnabyddir yr asedau PFI fel eiddo, offer a chyfarpar, pan ddechreuir eu defnyddio. Mae'r asedau'n cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Cydnabyddir y rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd â'r ased PFI. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les cyllid yn unol ag IAS 17. Cyfrifir cost ariannu flynyddol trwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y les i rwymedigaeth y les weithredol am y cyfnod ac mae'n cael ei chodi ar Incwm. Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei dyrannu fel rhentiad les cyllid yn cael ei chymhwyso i dalu'r gost ariannu flynyddol ac i ad-dalu rhwymedigaeth y les dros dymor y contract.

## A.13 Enillion a Cholledion y Gyfradd Gyfnewid

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gofyn am gyllid rhaglenni oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ar lefel yr Ewro sy'n cyfateb i'r sterling y mae ei angen ac yn talu cronfeydd allan wedyn mewn sterling. Mae elw neu golled ar y trafodiadau hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 21.

Mae trafodiadau eraill mewn arian cyfredol tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid i ystyriaeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.14 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol, ac Asedau Digwyddiadol, gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol yn bodoli (h.y. rhwymedigaeth bresennol yn deillio o digwyddiadau blaenorol), mae all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol ac mae modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio darpariaethau disgownt real Trysorlys Ei Mawrhydi.

## A.15 Offerynnau Ariannol

Mae IFRS 7: yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau ei gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff y sector cyhoeddus.

### Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach trwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr bernir mai bach iawn yw'r risg credyd cysylltiedig. Gwneir darpariaethau ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed,

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith trwy adolygiad lleihadau blynyddol.

### Risg i'r Farchnad

Risg Arian Cyfred Tramor – mae Llywodraeth Cymru'n agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio Cronfeydd a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, gan alluogi lefelau gwariant wedi'u targedu i gael eu bodloni. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon i gyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

### Risg y Gyfradd Llog

Mae faint o log sydd i'w ad-dalu ar fenthyciadau i fyfyrwyr yn destun y gwamaliadau yng nghyfradd llog y farchnad ac RPI. Gall hyn arwain at risg wrth ragamcanu'n gywir faint o log sy'n daladwy ac felly lleihad posibl yn llifoedd arian parod y dyfodol.

### Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth y Senedd trwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

## A.16 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a dehongliadau diwygiedig a newydd wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y cyfrifon hyn, gan eu bod yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn y dyfodol.

Y safonau a allai gael effaith sylweddol o'u mabwysiadu yw:

**IFRS 12 Disclosure of interests in other entities** – mae hwn yn egluro'r gofynion datgelu ynghylch asedau a ddelir i'w gwerthu, eu dal i'w dosbarthu neu fel gweithrediad sydd wedi dod i ben yn unol ag IFRS 5 Non-current Assets Held for Sale and Discontinued Operations.

**IFRS 9 Financial Instruments** – mae IFRS 9 yn ymdrin â dosbarthu, mesur a lleihau asedau ariannol ac mae'n dal i gael ei ystyried gan Drysorlys Ei Mawrhydi er mwyn ei fabwysiadu yn FReM 2018-19.

**IFRS 15 Revenue from Contracts with Customers** – mae IFRS 15 yn sefydlu egwyddorion ar gyfer adrodd gwybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr Datganiadau Ariannol ynghylch natur, swm, amseru ac ansicrwydd refeniw a llifoedd arian parod sy'n deillio o gontractau â chwsmeriaid. Cymhwysir y safon hon yn FReM 2018-19.

**IFRS 16 Leases** – i ddod i rym 1 Ionawr 2019. Bydd IFRS 16 yn darparu un model ar gyfer yr holl lesoedd a fydd yn rhoi pob les ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol oni bai fod tymor y les yn 12 mis neu'n llai neu fod gwerth isel i'r ased gwaelodol. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn adolygu goblygiadau'r diwygiad hwn ar sector cyhoeddus y DU er mwyn ei gynnwys yn FReM 2019-20.

Safonau nad ystyrir bod ganddynt effaith sylweddol yn y dyfodol yw:

- IFRS 1 First time adoption of IFRS
- IFRS 4 Insurance Contracts wedi'i addasu ar gyfer IFRS 9
- IAS 28 Investments in associates and joint ventures
- IFRS 2 Share based payment
- IFRS 17 Insurance Contracts i ddisodli IFRS 4
- IAS 7 Statement of Cash Flows
- IAS 12 Income Taxes
- IAS 40 Investment Property Trosglwyddo Eiddo Buddsoddi
- Dehongliad IFRIC: 22: Foreign Currency Transactions and Advance Consideration

# Atodiad B – Geirfa (Heb Ei Harchwilio)

**Amorteiddio** – sef y dull o ledaenu cost ased anghyffyrddadwy nad yw'n gyfredol dros ei oes ddefnyddiol.

**Colledion** – mae colledion yn cynnwys dileadau a diddymiadau. Dileu yw'r broses a ddefnyddir i nodi a gwahanu symiau i'w derbyn y mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â mynd ar eu trywydd, er enghraifft ar sail gwerth am arian. Dileadau yw symiau i'w derbyn yr ystyrir nad oes modd eu hadfer, er enghraifft am nad oes ffyrdd ymarferol o fynd ar eu trywydd.

**Cronfa Gyfunol Cymru** – lle niwtral i ddal yr arian cyhoeddus sy'n cael ei ddyrannu i Gymru gan Lywodraeth y DU, trwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a hefyd yr hyn sy'n dod i law oddi wrth ffynonellau eraill.

**Cyfanswm Gwariant a Reolir (TME)** – term ym maes cyllidebu'r Trysorlys sy'n cwmpasu'r holl wario cyfredol a chyfalaf a gyflawnir gan y sector cyhoeddus.

**Cyfrifyddu Adnoddau** – y system a ddefnyddir i greu cyllidebau, amcangyfrifon a chyfrifon mewn ffordd debyg i gyfrifon sy'n cael eu harchwilio'n fasnachol, er mwyn i gynlluniau a chofnodion o wariant ganiatáu yn llawn ar gyfer y nwyddau a'r gwasanaethau sydd i'w defnyddio, neu sydd wedi'u defnyddio – h.y. nid dim ond yr arian parod sydd wedi'i wario.

**Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLIC)** – yr enw yng Nghymru ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru.

**Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** – cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol, mae'n debygol y caiff y rhwymedigaeth ei setlo a bod swm wedi'i amcangyfrif yn ddibynadwy.

**Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol (CFER)** – incwm yw hwn na ellir ei gadw ac sy'n cael ei basio draw i Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Dibrisiant** – mesur o draul, defnydd neu ostyngiad yn oes ddefnyddiol ased sefydlog, boed hynny yn sgil traul, oed neu'r ffaith ei fod wedi darfod oherwydd newidiadau technolegol neu newidiadau'r farchnad.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** – terfyn gwario ar wahân a reolir yn flynyddol yw hwn o'r enw AME sydd â golwg fwy tymor byr na'r terfyn DEL. Mae AME yn fwy gwamal na gwariant DEL ac felly mae'n anos ei esbonio neu ei reoli gan ei fod yn cael ei wario ar raglenni sy'n cael eu harwain gan y galw.

**Gwario Cyfalaf** – gwario ar brynu asedau, uwchlaw trothwy penodol, y disgwylir eu defnyddio am flwyddyn o leiaf. Mae'n cynnwys prynu adeiladau, offer a thir. Pennir y trothwy gan bob corff: nid yw eitemau sy'n cael eu prisio yn is nag ef yn cael eu cyfrif fel asedau cyfalaf, hyd yn oed os oes ganddynt oes gynhyrchiol o fwy na blwyddyn.

**Gweinyddiaethau datganoledig** – y gweinyddiaethau a sefydlwyd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon o dan Ddeddf yr Alban1998, Deddf Llywodraeth Cymru a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

**Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM)** – hwn yw canllaw technegol Trysorlys Ei Mawrhydi at baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Llywodraeth.

**Menter Cyllid Preifat (PFI)** – ffordd o greu 'partneriaethau cyhoeddus-preifat' trwy ariannu prosiectau seilwaith cyhoeddus gyda chyfalaf preifat.

**Nad ydynt yn ddiriaethol** – mae asedau nad ydynt yn ddiriaethol yn asedau nad ydynt yn ffisegol, er enghraifft, meddalwedd a chostau datblygu gwefannau.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol** – rhwymedigaethau posibl yw rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n deillio o ddigwyddiadau blaenorol ac na chaiff eu bodolaeth ei chadarnhau ond gan un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru. Enghraifft yw achos cyfreithiol lle y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru dalu costau cyfreithiol os bydd yn colli'r achos. Nid yw'r manylion hyn yn cael eu datgelu os gallai gwneud hynny ragfarnu canlyniad hawliadau cyfreithiol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)** – mabwysiadwyd IFRS gan y Datganiadau Ariannol o Lywodraethu, o 2009-10, yn sail ar gyfer paratoi eu cyfrifon a oedd yn cael eu paratoi gynt o dan Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol, y DU (UK GAAP).

**Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** – sef y gyllideb wario sy'n cael ei dyrannu i Lywodraeth Cymru gan yr Adolygiad o Wariant. Mae'n cael ei gategoreiddio fel DEL Cyfalaf a DEL Adnoddau. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys rhedeg y gwasanaethau a chost feunyddiol adnoddau megis staff. Mae'r terfyn DEL yn cael ei reoli'n dynn iawn gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Bernir mai DEL yw gwariant oni bai fod Trysorlys Ei Mawrhydi wedi nodi'n wahanol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017
WG32164
ISBN 978 1 78859 494 3 (digidol)
ISBN 978 1 78859 496 7 (argraffu)